Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23








www.comisiynyddplant.cymru



Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales



# Cynnwys


01 **RHAGAIR** gan Gomisiynydd Plant Cymru ........ 04

02 **EIN PWRPAS** ........ 06

03 **GWELEDEDD** ........ 08

04 **HYGYRCHEDD** ........ 11

05 **AMRYWIAETH** ........ 16

06 **EIN HYMRWYMIADAU** ........ 23

07 **EIN GWAITH AR FATERION POLISI ALLWEDDOL** ... 26

08 **CYFRIFON 2022-23** ........ 72

# RHAGAIR

gan Gomisiynydd Plant Cymru



01

**Adroddiad yw hwn am fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd – blwyddyn pryd buon ni'n gweithio gyda 17,000 o blant, yn casglu barn mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn ein harolwg mwyaf hygyrch hyd yma, ac yn helpu teuluoedd mewn mwy na 600 o achosion a gefnogwyd trwy ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor.**

Cychwynnais yn y swydd ym mis Ebrill 2022, gan wybod tîm mor wych oedd yn swyddfa'r Comisiynydd Plant, ond ar ôl treulio'r 12 mis diwethaf gyda nhw, yn gweithio ar ddylunio blaenoriaethau strategol, yn mireinio ein harferion, ac yn gwella'r hyn sydd gennym i'w gynnig – rwy wedi sylweddoli cymaint o berl yw'r sefydliad hwn erbyn hyn. O ganlyniad, mae gwneud y tîm a'i waith yn fwy gweladwy a nodi sut gallai gefnogi gymaint yn fwy o blant a'u teuluoedd yn un o'm prif flaenoriaethau, yn ogystal â chynyddu ein hygyrchedd fel corff cyhoeddus ac amrywiaeth ein tîm o staff, ein paneli ymgynghorol, ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a'r rhanddeiliaid rydyn ni'n ymgysylltu â nhw.

Eleni, mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith echrydus ar blant a phobl ifanc. Fydda i ddim yn anghofio un o'r sgyrsiau cyntaf ges i gydag aelod o'm panel ymgynghorol pobl ifanc, ynghylch ei phryder na fyddai ei theulu yn gallu fforddio cludiant i'r ysgol i'w brawd bach, a darllen rhai o ganlyniadau ein gwaith Gobeithion i Gymru, lle roedd plant 7 oed yn rhannu'n agored eu pryderon ynghylch fforddiadwyedd bwyd i'w teuluoedd. O ganlyniad, bydd tlodi a'i effeithiau yn un o brif sylfeini fy ngwaith, yn ogystal â sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r rhai sydd mewn swyddi pwerus yng Nghymru yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gyfyngu ar ei effaith andwyol ar blentyndod.

Er bod llawer yn amlwg i ymfalchïo ynddo yma yng Nghymru – rydyn ni'n wlad sy'n parchu ac yn cynnal hawliau dynol, rydyn ni'n genedl noddfa, ac rydyn ni'n arwain y byd yn rhai o'n harferion, mae llawer o faterion a meysydd hefyd lle mae rhaid i ni wneud yn well. Mae fy ngwaith eleni gyda'm cymheiriaid yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, yn cynhyrchu adroddiad ar y cyd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, yn bwrw goleuni ar rai o'r meysydd hanfodol hyn.

Fel pencampwr annibynnol i blant Cymru, bydda i'n herio Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru yn cyflawni newid cadarnhaol ym mywydau plant, ac na fydd y gwasgu ar y pwrs cyhoeddus yn cael effaith niweidiol eto ar y cenedlaethau iau. Mae hynny'n golygu y bydda i'n edrych yn fanylach ar sicrhau bod y strwythurau a'r rhaglenni blaengar sydd wedi'u bwriadu i gadw plant yn ddiogel ac yn iach yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Mae ein hadran ar faterion polisi allweddol yn




yr Adroddiad Blynyddol hwn yn amlygu beth rydyn ni'n meddwl ddylai fod yn flaenoriaethau i'n Llywodraeth yn ystod y deuddeg mis nesa; argymhellion sydd wedi'u seilio ar wybodaeth a gasglwyd o'n gwaith gyda phlant a phobl ifanc, a'n trafodaethau gyda sefydliadau partner.

Tîm o 23 o swyddogion yn unig sydd gennym, a chylch gorchwyl statudol sylweddol. Er mwyn cyflawni ein dyheadau, rwyf am ein gweld yn gweithio mwy mewn cydweithrediad ag eraill yng Nghymru, i sicrhau ein bod yn estyn ein cwmpas, yn gwneud yn fawr o'r dystiolaeth sydd gan y sefydliadau hyn oddi wrth wasanaethau rheng flaen, ac yn clywed gan y lleisiau tawelach hynny fyddai ddim o reidrwydd yn rhan o'n gwaith cyfranogiad arferol.

Ar ôl siarad yn bersonol â llawer o'n rhanddeiliaid allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â chynnal trafodaethau niferus gyda'r staff a'n paneli ymgynghorol, mae fy nyheadau personol yn troi o gwmpas y canlynol: cynyddu gwelededd, hygyrchedd ac amrywiaeth y sefydliad er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru helpu cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl, yn ogystal â mwyafu defnydd o'r data a'r dystiolaeth rydyn ni'n eu casglu. Mae'r adroddiad yma'n amlygu'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud ar y rheiny hyd yma.


**Rocio Cifuentes** MBE
Comisiynydd Plant Cymru

# EIN PWRPAS




02

# Mae cyfres o gyfreithiau'n disgrifio beth dylai Comisiynydd Plant Cymru ei wneud i ddiogelu a hybu hawliau plant.



**Mae gennym ni hawl i weithio gyda phob plentyn yng Nghymru**

**Hyd at 18 oed, neu hyd at 21 oed os ydyn nhw wedi bod mewn gofal, neu 25 os ydyn nhw wedi bod mewn gofal ac maen nhw'n dal ym myd addysg.**

Ein tîm cyfranogiad yn **ymgysylltu**

Mae ein tîm polisi yn **dylanwadu**

Y cyfan wedi'i **gefnogi** gan **dîm craidd** bychan, ymroddedig o arbenigwyr TG, cyllid ac Adnoddau Dynol.

A'n tîm cyfathrebu yn **codi llais**

Ein tîm ymchwiliadau a chyngor yn **cynghori**

# GWELEDEDD

"Rwyf am gynyddu gwelededd y swyddfa a rôl Comisiynydd Plant Cymru trwy wella'r cyfathrebu allanol a'r ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc."

Rocio Cifuentes, 2022


03

## Uchafbwynt personol gan y staff

"Lansio Gobeithion i Gymru – ein hymgynghoriad mwyaf hygyrch a chynhwysol hyd yma, lle cafwyd dros 10,000 o ymatebion gan blant, pobl ifanc a'r oedolion sy'n gofalu amdanyn nhw."

R

## Ein blwyddyn mewn rhifau




### Yr holl ymweliadau rydym wedi'u gwneud ag awdurdodau lleol ledled Cymru

| Ardal o Gymru | Nifer yr ymweliadau |
|---|---|
| **De Cymru** | **102** |
| **Canolbarth Cymru** | **6** |
| **Gogledd Cymru** | **21** |
| **Amrywiol/Cymru gyfan** | **36** |

**17,000**

Buon ni'n ymgysylltu â mwy na 17,000 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru, bron ym mhob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru.

**10,000**

Fe wnaethon ni sicrhau dros 10,000 o ymatebion i'n hymgynghoriad Cymru gyfan, Gobeithion i Gymru, y byddai ei ganlyniadau'n dylanwadu ar ein strategaeth nesaf tair blynedd.

**235**

Fe wnaethon ni sicrhau sylw 235 o weithiau mewn print a darllediadau i waith y Comisiynydd.

# Uchafbwyntiau ein gwaith

## Gobeithion i Gymru

**Lluniwyd yr ymgynghoriad graddfa fawr 'Gobeithion i Gymru' i alluogi plant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, i rannu eu profiadau a chyfrannu eu barn ynghylch meysydd thematig allweddol sy'n berthnasol i blant. Byddai'r hyn a ddysgwyd yn llywio strategaeth tair blynedd nesaf y tîm.**

Ymatebodd cyfanswm o

**8,830**

o blant a phobl ifanc, yn ogystal â

**507** o weithwyr proffesiynol ac **876** o rieni/ofalwyr



Am y tro cyntaf, fe wnaethon ni greu fersiwn oedd yn galluogi'r tîm i wrando ar farn plant ag anableddau dysgu dwys a lluosog. Trwy weithio gydag athro o ysgol arbennig Tŷ Coch, llwyddon ni i ddefnyddio technoleg arbenigol – gwaith a greodd benawdau a sicrhau adborth, gan gynnwys:

***"Mae hyn yn golygu popeth i'r plentyn a'r teulu oherwydd bod eu barn a'u lleisiau'n cael eu clywed, a bod modd iddyn nhw gael gwrandawiad hefyd."***

Bydd ein strategaeth newydd tair blynedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023, a medrwch ddarllen dadansoddiad cynhwysfawr o'r holl ganlyniadau yma.

## Y Ffordd Gywir

Gan barhau â'n gwaith i gefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i integreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer, eleni rydyn ni wedi creu ystod o ganllawiau cyflwyno ar-lein ar gyfer gwahanol sectorau proffesiynol, gan gynnwys: Gofal Cymdeithasol; Addysg; Iechyd a gweithwyr proffesiynol/israddedigion. Ein nod oedd gwneud y rhain yn hawdd eu defnyddio trwy gynnwys canllaw i gyflwynwyr ac opsiynau cyflwyniad sain. Gallwch ddarllen mwy am 'Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru' yma.

## Ffyrdd o weithio

**Er mwyn gwella ein gwaith cyfathrebu a gwneud gwaith y tîm yn fwy gweladwy, eleni buon ni'n cyflwyno llythyrau newyddion misol, yn cynnwys uchafbwyntiau gwaith ein hamrywiol swyddogaethau.**

Rydyn ni hefyd wedi treulio amser eleni yn adolygu ein strategaeth cyfranogiad. Mae'r gwaith wedi arwain at strategaeth ddiwygiedig sy'n cyfateb i egwyddorion ein dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant. Er mwyn cefnogi eraill i wneud gwaith cyfranogiad ystyrlon, rydyn ni wedi datblygu pecyn offer cyfranogiad hygyrch cam wrth gam i oedolion, sy'n dangos sut mae cefnogi grŵp o blant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch sut mae gwella gwasanaeth. Pecyn offer hygyrch yw hwn, a luniwyd i'w ddefnyddio gyda phob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

# HYGYRCHEDD

"Rwy eisiau gwneud y swyddfa a'r gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor yn arbennig yn fwy hygyrch, er mwyn sicrhau bod modd i bob plentyn, person ifanc a gweithiwr proffesiynol sydd angen hynny gael mynediad i'r adnodd pwysig yma."

Rocio Cifuentes, 2022

04

**Mae ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor ar gael am ddim ac yn gyfrinachol.  Mae yno i gynghori a chefnogi plant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os byddan nhw'n teimlo bod plentyn wedi cael triniaeth annheg neu heb gael ei hawliau.**

# Rhai uchafbwyntiau personol gan aelodau o'n gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor

**MATER:** Cysylltodd rhiant â ni oherwydd bod plentyn wedi cael cynnig lleoliad arbenigol nad oedd yn barod, oherwydd oedi gyda gwaith adeiladu, i'r plentyn gychwyn ym mis Medi 2022. Roedd cyllid Cynnig Gofal Plant Cymru hefyd wedi dod i ben oherwydd bod y plentyn wedi cael cynnig y lleoliad arbenigol, ac ni allai'r rhiant fforddio pontio'r bwlch yn ariannol nes bod y ddarpariaeth yn barod.


**GWEITHREDU:** Fe wnaethon ni gysylltu â'r awdurdod lleol i ofyn a allai'r ysgol dderbyn y plentyn i'r brif ffrwd gyda chefnogaeth nes bod y lleoliad yn barod, neu dalu'r feithrinfa breifat tra bod hawliad amgylchiadau esgusodol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i estyn y ddarpariaeth. Fe wnaethon ni gyflwyno'r cais i'r Uned Gofal Plant, gyda llythyr cefnogol gan yr awdurdod, ar gyfer cyllid Cynnig Gofal Plant Cymru.

**CANLYNIAD:** Fe wnaethon ni sicrhau cyllid Cynnig Gofal Plant Cymru, yn gyflymach na'r disgwyl, a than hanner tymor. Yn sgîl hynny, roedd modd i'r plentyn gyrchu darpariaeth oedd yn diwallu ei anghenion, heb oblygiadau ariannol niweidiol i'r teulu.

**MATER:** Roedd dau fwrdd iechyd lleol yn dadlau ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am dalu am ofal iechyd parhaus i berson ifanc â phrofiad o ofal oedd ag anghenion cymhleth ac yn pontio i wasanaethau oedolion.

**GWEITHREDU:** Fu fuon ni'n siarad â bwrdd iechyd lleol y person ifanc, oedd yn dadlau ynghylch eu cyfrifoldeb, oherwydd bod gan y person ifanc brofiad o ofal, ac felly roedden nhw'n honni mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol oedd wedi cychwyn yr achos gofal oedd y person ifanc.


**CANLYNIAD:** Cytunodd y bwrdd iechyd lleol ar y cyllid a threfnwyd cyfarfod ynghylch y trefniadau pontio.



# Ein blwyddyn mewn rhifau


**665**
**o achosion**
(mae hyn yn cymharu â 604 o achosion y flwyddyn flaenorol) – y ffigur uchaf mewn 4 blynedd

## Materion ar y brig:





| | |
|---|---|
| 1. Addysg | 279 |
| 2. Gwasanaethau cymdeithasol | 260 |
| 3. ADY/AAA | 120 |
| 4. Arall | 6 |

## Lle mae'r holl achosion wedi dod gan awdurdodau ledled Cymru





| Awdurdod lleol | Rhif o achosion |
|---|---|
| 1. Blaenau Gwent | 9 |
| 2. Penybont | 57 |
| 3. Caerffili | 33 |
| 4. Caerdydd | 84 |
| 5. Sir Gaerfyrddin | 34 |
| 6. Ceredigion | 7 |
| 7. Conwy | 13 |
| 8. Sir Ddinbych | 8 |
| 9. Sir y Fflint | 13 |
| 10. Gwynedd | 10 |
| 11. Ynys Mon | 7 |
| 12. Merthyr Tydfil | 18 |
| 13. Sir Fynwy | 9 |
| 14. Castell-nedd Port Talbot | 39 |
| 15. Casnewydd | 41 |
| 16. Sir Benfro | 20 |
| 17. Powys | 25 |
| 18. Rhonnda Cynon Taf | 51 |
| 19. Abertawe | 45 |
| 20. Torfaen | 5 |
| 21. Bro Morgannwg | 45 |
| 22. Wrecsam | 17 |
| 23. Arall | 18 |
| 24. Anhysbys | 73 |



**279**

**Addysg**
yr oedd 75 ohonyn nhw'n ymwneud â chwynion, 33 yn ceisio cyngor a 27 yn ymwneud â bwlio

**260**



**Gwasanaethau cymdeithasol**
yr oedd 116 ohonyn nhw'n ymwneud â chwynion, 30 am ddarparu gwasanaeth, a 24 yn ceisio cyngor




**120**

**Addysg ADY/AAA** yr oedd 43 ohonyn nhw'n ymwneud â lleoliadau, 27 am ddarpariaeth, a 20 am Ddatganiad/CDU

# Pwy oedd y cyswllt:

| | |
|---|---|
| 1. Rhiant | 376 |
| 2. Aelod estynedig o'r teulu | 73 |
| 3. Aelod o'r cyhoedd | 38 |
| 4. Plant a phobl ifanc | 21 |




# Sut buon nhw'n cysylltu:

| | |
|---|---|
| 1. Ffôn | 453 |
| 2. E-bost | 208 |



# Beth mae'r data yn ei ddweud wrthyn ni:

**Ar ôl dadansoddi ein swyddogaeth gwaith achosion yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae tair agwedd ar y gwaith yn destun pryder i ni ac yn galw am ragor o waith manwl gan y tîm yn 2023/24, sef:**

- Er gwaethaf ymdrechion y tîm ehangach, mae lefel y cyswllt gan rai awdurdodau lleol yn isel. Byddwn ni'n gwneud mwy o waith wedi'i dargedu gyda'r awdurdodau hynny i gynnig cefnogaeth i gynnal hawliau dynol plant, ac i bennu sut gallwn ni gynyddu ymgysylltiad ysgolion a chyrff trydydd sector o'r ardaloedd hynny.
- Rydyn ni am ganfod pam nad yw mwy o bobl ifanc yn estyn allan yn uniongyrchol at y gwasanaeth i gael cefnogaeth. Rydyn ni'n gwneud ymdrech ymwybodol i beidio â dyblygu gwaith pobl eraill, ond byddwn ni'n gweithio gyda phobl ifanc i ganfod ydyn nhw'n cael cefnogaeth ddigonol mewn mannau eraill, a beth gallwn ninnau wneud, os oes rhywbeth, i wella hygyrchedd ein gwasanaeth.
- Hefyd yn flaenorol dydyn ni ddim wedi casglu data cydraddoldeb ar y bobl sy'n cysylltu â'n gwasanaeth, ond wrth symud ymlaen byddwn ni'n archwilio ffyrdd o gasglu'r wybodaeth hon yn sensitif ac yn briodol, i'n helpu i werthuso pa mor eang ac effeithiol yw ein cwmpas.

Mae gwneud y defnydd gorau o'n data a'n tystiolaeth hefyd yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiynydd. O ganlyniad, byddwn ni'n ceisio cryfhau'r mecanweithiau rydyn ni'n eu defnyddio i ganfod tueddiadau a phatrymau allweddol sy'n dod i'r amlwg o waith Ymchwiliadau a Chyngor, ac yn defnyddio hynny i lywio gwaith ein tîm Polisi. Un enghraifft o hyn yw gweithredu'r Ddeddf ADY, sy'n effeithio ar blant a'u teuluoedd mewn ffyrdd nad ydynt bob amser yn gadarnhaol nac yn cyd-fynd â gweledigaeth y ddeddfwriaeth arloesol hon. Bydd ein tîm yn ymchwilio'n ddyfnach i hyn, er mwyn canfod beth yw'r rhwystrau a chyflwyno argymhellion polisi.

## Uchafbwyntiau arall

### Llyfr profiadau

Eleni cyhoeddodd y tîm 'Dim Drws Anghywir: Llyfr Profiadau', oedd yn ceisio cyflwyno'n fyw yr heriau mae plant niwroamrywiol a'u teuluoedd yn eu hwynebu dim ond wrth geisio estyn allan am gymorth a chyrchu eu hawliau. Mae'r holl brofiadau a gyflwynir yn y llyfr yn achosion a drafodwyd trwy ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ymarfer addawol hefyd yn cael ei amlygu yn y llyfr, yn ogystal â phersbectif seicolegydd clinigol o fri. Mae'n cloi â chyfres o gamau nesaf ar gyfer Grŵp Cynghori Gweinidogol Cyflyrau Niwroddatblygiadol newydd Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod ein pwyntiau dysgu yn derbyn sylw digonol.

### Diogeledd ein data

Yn sgîl mwy o weledEdd a hygyrchedd, daw mwy o ddata i'w brosesu. Oherwydd natur ein gwaith, mae ein data yn aml yn bersonol ei natur, ac mae cynnal ein cyfrifoldebau i sicrhau bod data'n cael ei gadw'n ddiogel ac yn unol â'n rhwymedigaethau diogelu data yn amcan gweithredol allweddol. Eleni, ar sail cyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, fe wnaethon ni gynnig ein hunain ar gyfer dau asesiad allanol – Cyber Essentials a Cyber Essential Plus – er mwyn darparu lefel o sicrwydd i ni ac i'r rhai rydyn ni'n casglu eu data ynghylch y mesurau sydd gennym ar waith i ddiogelu eu data. Fe wnaethon ni sicrhau'r ddau achrediad.



# AMRYWIAETH

"Rwyf am gynyddu amrywiaeth y tîm staff a'r rhanddeiliaid rydyn ni'n ymgysylltu â nhw er mwyn adlewyrchu'n well amrywiaeth materion a phrofiadau bywyd plant a phobl ifanc yng Nghymru."

Rocio Cifuentes, 2022

05

Rydyn ni'n sefydliad sy'n falch o fod yn wrth-hiliol, yn gyflogwr Cyflog Byw, a chyflogwr Hyderus ynghylch Anabledd.

# Ein staff

## 1 Cyflwyniad a chyd-destun

**Rydyn ni'n annog aelodau ein Tîm fel mater o drefn i rannu data ynghylch yr holl nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Rydyn ni'n gwneud hynny oherwydd bod yr ystadegau hyn yn ein helpu i ganfod camau cadarnhaol er mwyn gwella natur gynhwysol ein gweithle.**

Ar gyfartaledd, fodd bynnag, mae rhwng 1 a 5 o bobl bob blwyddyn yn dewis yr opsiwn 'dewis peidio dweud' ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb, felly does gennym ni ddim darlun cyflawn, ac mae cafeat ar yr adran hon o'r herwydd.

Er ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd rhannu ein hystadegau amrywiaeth, mae cyfyngiadau ar lefel y manylion y gallwn ni eu rhannu er mwyn parchu hawliau diogelu data ein cydweithwyr.

Er hwylustod adrodd a chymharu gwahanol flynyddoedd, rydyn ni'n adrodd ein hystadegau ar ddyddiad penodol yn y flwyddyn (31 Mawrth). O ganlyniad, mae rhaid i ni dderbyn na fydd y dull hwn bob amser yn crynhoi proffil amrywiaeth unrhyw gyflogaeth tymor byr neu fyfyrwyr ar leoliad rydyn ni wedi'u cefnogi yn ystod y flwyddyn.

## 2 Rhesymau i ddathlu

**Er gwaethaf y cyfyngiadau yn y data fel y nodwyd uchod, mae llawer o bethau i'w dathlu eleni ynghylch cyfansoddiad ein Tîm bychan o bersbectif cydraddoldeb:**

- Rydyn ni'n falch o'n cydraddoldeb rhywedd o ran grymuso menywod yn y gweithle. Mae gennym Gomisiynydd Plant sy'n fenyw a thîm rheoli sy'n cynnwys 4/6 arweinydd benyw;
- Rydyn ni'n falch o'n diwylliant Cymraeg. Mae gennym ni ganran uchel o gydweithwyr sy'n nodi bod ganddynt hunaniaeth ethnig Cymraeg, ac mae gan 57% o'n tîm staff sgiliau uwch a medrus yn yr iaith;
- Rydyn ni'n gwella ein hymdrechion i gefnogi pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn y gweithle, ac yn dysgu gan gydweithwyr ac aelodau o'r tîm ymgynghorol sy'n deall anabledd trwy brofiad bywyd a chysylltiad;
- Rydyn ni hefyd yn cymryd camau mawr i wella amrywiaeth ethnig ein tîm o staff, gyda rhai safbwyntiau pwysig (a fu ar goll yn flaenorol) o gymunedau ethnig lleiafrifol yn cyfrannu at ein gweithle eleni.
- Rydyn ni'n cyflogi pobl ar draws yr ystod oed, gyda'r aelod ifancaf o'n Tîm yn eu 20au, a'r hynaf dros 60 oed.
- Fel tîm bach iawn o bobl, mae profiadau bywyd amrywiol aelodau o'n Panel Ymgynghorol Oedolion a'n Panel Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'n gallu i ddeall ac ymateb i amrywiol brofiadau bywyd a heriau.

Rydyn ni'n ochelgar optimistaidd y bydd y newidiadau i'n prosesau recriwtio yn parhau i gynyddu amrywiaeth ein Tîm; serch hynny, dydyn ni ddim yn llaesu dwylo ynghylch cydraddoldeb ein gweithlu. Rydyn ni'n gwybod y gall amrywiaeth ein Tîm newid wrth i un person adael, ac mae rhai profiadau bywyd pwysig yn dal ar goll o'n staff presennol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau i fireinio'r newidiadau a gyflwynwyd i'n prosesau recriwtio mewn perthynas â chydraddoldeb y flwyddyn flaenorol. Gwelsom nifer cynyddol o ymgeiswyr sy'n byw gydag anableddau, ymgeiswyr sy'n gofyn am warantu cyfweliad, mwy o ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol, ac o'r gymuned LHDTC+.

Roedd ein gweithgareddau dysgu a datblygu eleni yn cynnwys hyfforddiant Ymwybyddiaeth Hil a diwrnod datblygu i'r Tîm cyfan, yn ymweld â safle'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig, yn cwrdd â chleientiaid ac yn dysgu am yr heriau i bobl ifanc yn y cymunedau hyn.



# 3 Amrywiaeth cyffredinol y gweithlu

**Ar 31 Mawrth 2023, roedd gennym ni 26 o bobl ar y gyflogres (yn cynnwys y Comisiynydd Plant).**

**Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gadawodd tri pherson y Tîm. Mae hynny'n cynnwys diwedd cyfnod y Comisiynydd ar y pryd yn y swydd, a dau berson ar gontractau parhaol amser llawn.**

Cafwyd pum penodiad newydd yn y cyfnod yma, un ohonynt oedd Comisiynydd Plant newydd Cymru, a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, cyflogwyd un ar gontract parhaol amser llawn, a chyflogwyd tri pherson i gyflenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu.

O'r ddau aelod staff oedd ar gontractau parhaol amser llawn, penderfynodd y ddau adael y Tîm, gydag un yn ymddeol ac un yn ymadael am resymau gyrfa ar ôl bod yng nghyflogaeth CPC ers chwe blynedd. Nid yw hyn yn cynnwys diwedd cyfnod y Comisiynydd Plant yn y swydd.

**Ar 31 Mawrth 2023:**

- Roedd **15%** o'n gweithlu (4 person) yn cael eu cyflogi am gyfnod penodol. Mae un o'r rhain yn adlewyrchu cyfnod y Comisiynydd Plant o 7 mlynedd yn y swydd, ac mae'r 3 arall yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflenwi yn achos absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu.
- Roedd **65%** o'n cydweithwyr (17 allan o 26) yn gweithio oriau amser llawn, a 35% yn gweithio oriau rhan amser, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle roedd 69% yn gweithio'n amser llawn. Mae canran y bobl sy'n gweithio oriau rhan amser wedi cynyddu rhyw fymryn o 31%. Dim ond 11% o'n gweithwyr rhan amser sy'n disgrifio'u hunain fel gwrywod (1 o 9 person). Mae hyn yn debyg iawn i'r llynedd.
- Mae **81%** o'n gweithlu yn nodi eu bod yn fenywod; mae hynny'r un fath â'r llynedd.
- Datgelodd **7.5%** o'r Tîm gyfeiriadedd rhywiol lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, mae 11.5% yn dewis peidio datgelu eu cyfeiriadedd, a dywedodd 81% eu bod yn wahanrywiol.
- Ni ddatgelodd neb o'r Tîm hunaniaeth drawsrywedd, ddeurywedd neu ystwyth o ran rhywedd yn y cyfnod yma.
- Mae **53%** (14 person) o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn o dan 35 oed; mae hynny fymryn yn uwch na'r llynedd, pan oedd 40% o'n gweithlu o dan 35 oed. Mae 21% (3 allan o 14) o bobl yn y grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- Mae **30%** (8 person) o'n cydweithwyr yn y cyfnod yma rhwng 36 a 54 oed. Mae 25% (2 allan o 8) o'r grŵp oedran yma yn gweithio'n rhan amser.
- Mae **15%** (4 person) o'n cydweithwyr yn 55 oed a throsodd, y llynedd roedd y ffigur hwn yn 19%; mae 75% o'r grŵp oedran yma'n gweithio'n rhan amser.
- Nid ydym yn cyflogi neb dros 65 oed ar hyn o bryd.
- Mae **15%** o'n gweithlu yn byw gyda chyflwr iechyd/ anabledd hirdymor; o gymharu â 22.5% o gyfanswm gweithlu Cymru.
- Ar 31 Mawrth 2023 roedd **88%** o'n gweithlu yn datgan bod ganddynt ethnigrwydd gwyn, o gymharu â 96% ar 31 Mawrth 2022; ac roedd 57% yn disgrifio'u hunain fel Cymry Gwyn.
- Mae **58%** o gyflogeion (15 allan o 26) yn disgrifio'u sgiliau Cymraeg fel rhai ar lefel rugl, uwch neu ganolradd. Dywedodd 42% o'n gweithlu fod ganddyn nhw sgiliau lefel mynediad neu sylfaen yn yr iaith. Mae hyn yn ostyngiad bychan yn nifer y cydweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Bu **34%** o'n gweithlu yn datgan ymrwymiad i grefydd benodol (Cristnogaeth ac Islam). Gwnaeth 50% o'n cydweithwyr ddatgan nad oedd ganddyn nhw grefydd neu gred.
- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydyn ni wedi cefnogi dau berson trwy feichiogrwydd ac absenoldeb mamolaeth, un person trwy absenoldeb mabwysiadu, ac un person ar secondiad i sefydliad arall.
- Bu cynrychiolwyr o bob rhywedd, a'r rhan fwyaf o raddau a mathau o gontractau, yn cyrchu cyfleoedd dysgu a datblygu eleni. Yn ogystal â cheisiadau dysgu unigol, mae ein rhaglen datblygu tîm cyfan yn galluogi gweithwyr rhan amser, gweithwyr dros dro a gweithwyr â nodweddion gwarchodedig i gael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu.

# 4 Differynnau Rhywedd a Chyflog

**Mae'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi sy'n sylfaen ar gyfer system gyflogau CPC yn dyrannu bandiau i swyddi unigol ar sail saith ffactor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau yng nghyflogau swyddi yn gysylltiedig â gofynion penodol swyddi, ac mae'n cyfrannu at ein hymrwymiad i ddileu bias yn y broses recriwtio.**

O'r 21 o fenywod ymhlith ein staff oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2023, roedd 4 gweithiwr benyw, neu 19% o'r gweithlu benywaidd, yn cael eu cyflogi yn y tri band cyflog uchaf; o gymharu â 2 weithiwr gwryw, neu 40% o'r gweithlu gwrywaidd. Mae hyn yr un fath â'r llynedd, er gwaethaf newidiadau staff.

Er bod y nifer llai o gyflogeion gwryw yn llenwi nifer anghymesur o rolau uwch yn y gweithlu cyfan, mae cydbwysedd rhywedd y Tîm Rheoli yn tueddu at aelodau benywaidd o staff, gyda 4 cyfranogwr benywaidd a 2 gyfranogwr gwrywaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithlu yn dal i fod yn aelodau staff benywaidd, a llenwir y swydd uchaf yn y sefydliad gan fenyw, fodd bynnag, cyflog cyfartalog gweithiwr benyw ar 31 Mawrth 2023 oedd tua £35,000, a chyflog cyfartalog gweithiwr gwryw oedd tua £39,000. Fodd bynnag, mae'r differyn cyflog rhwng y ddwy rywedd wedi gostwng £2,000 eleni, o gymharu â'r llynedd.

Dim ond aelodau staff benywaidd sy'n llenwi'r ddau fand cyflog isaf yn CPC, ac mae hynny ar ben y ffaith bod 8 o'r 9 gweithiwr rhan amser yn CPC yn fenywod, sydd i gyd yn cyfrannu at y differyn cyfartaledd cyflog.

O'r 21 aelod staff benyw oedd wedi'u cyflogi ar 31 Mawrth 2023, mae 38% (8 person) yn llenwi rolau rhan amser, o gymharu ag un gweithiwr gwrywaidd yn unig (20% o'r gweithlu gwryw).



# Ein Paneli Ymgynghorol

**Prif ddiben ein paneli ymgynghorol oedolion a phobl ifanc yw darparu cyngor annibynnol, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol.**

## Dyma uchafbwyntiau rhai o'n haelodau presennol:

Rydw i wedi mwynhau bod ar y panel yma achos mae wedi rhoi hyder i fi a ffordd o gynyddu ymwybyddiaeth am faterion cyfredol. Rydw i wedi edrych ar lawer o wahanol bynciau ers 2020 – un o'r prif rai oedd COVID a'i effaith. Rydw i wedi trafod gofal iechyd, addysg, materion cymdeithasol a'r amgylchedd, y mae llawer ohonyn nhw wedi cael effaith wirioneddol. Mae'r panel yma wedi rhoi cyfle gwych i fi siarad yn uniongyrchol â gwleidyddion. Bydda i'n gweld eisiau fy amser ar y panel yn fawr, achos mae wedi rhoi profiad a sgiliau bywyd pwysig i fi. Mae hawliau plant/pobl ifanc yn eithriadol bwysig, ac mae'n rhaid eu parchu.

Jess

Wedi mwynahu cyfarfodydd am newid hinsawdd yn fawr iawn ac wedi mwynhau ymygysslltu a phobl o wledydd eraill yng nghynhadledd ENYA. Trafnidiaeth cyhoeddus! Angen pwyslais gwell ar hyn.

Charlie

Dwi wedi mwynhau yn fawr. Mae'r cyfarfodydd yn gyffrous ac yn hwyl. Mae wedi fy helpu i dyfu mwy o hyder. Mae wedi fy helpu i ddysgu am broblemau plant ifanc. Bwyd blasus.

Gwerfyl

Yn ystod fy nghyfnod ar banel ieuenctid Comisiynydd Plant Cymru rydw i wedi canfod mod i'n cael cyfrannu fy syniadau'n ddirwystr ac yn rheolaidd, ac rwy'n teimlo bod fy marn yn cael gwrandawiad a pharch. Rydw i wedi mwynhau fy nghyfnod ar y panel hyd yma, ac rydw i wrth fy modd yn teithio i leoliadau'r cyfarfodydd. Mae'r holl gyfarfodydd yn ddifyr ac rwy'n eu mwynhau (ar-lein ac wyneb yn wyneb). Rydw i hefyd yn hoffi'r ffaith ein bod ni'n cael gwybod pan fydd newidiadau ar waith, a'n bod ni'n gallu eu newid os dewiswn ni. Un enghraifft o hynny yw pan oedd animeiddiad i hybu gwybodaeth am hawliau plant, fe wnaethon ni wylio'r fideo, clywed y sgript, a phenderfynu'n unfrydol bendant yn ei erbyn. Rhai o'r pynciau rydyn ni wedi'u trafod yw; faint o Gymraeg sy'n cael ei ddefnyddio mewn ysgolion, newid yn yr hinsawdd, trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i rai o dan 18, gwaharddiadau (cyfnod byr) o'r ysgol, a llawer mwy.

Dylan

Rydw i wedi mwynhau bod yn rhan o'r is-grŵp newid hinsawdd, oherwydd mod i'n teimlo'n angerddol ynghylch taclo'r newid yn yr hinsawdd. Rydw i wedi mwynhau trafod opsiynau a syniadau gyda'r panel. Mae cymryd rhan wedi datblygu fy hyder. Fy hoff gyfarfod oedd ein cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb. Fe wnes i gysylltu â phobl a buon ni'n trafod problemau rydw i'n awyddus i'w datrys. Rydw i wedi dysgu am y problemau rydyn ni'n eu hwynebu heddiw yng Nghymru.

Matteo

Mae panel Comisiynydd Plant Cymru yn grŵp o bobl ifanc, o bob rhan o Gymru, sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda Rocio Cifuentes, ac yn trafod beth sy'n bwysig i ni, a'r materion rydyn ni'n credu sy'n berthnasol i ieuenctid Cymru. Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n ceisio dylanwadu ar sefydliadau a'r llywodraeth yn achos y penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant. Rydw i wedi mwynhau fy nghyfnod ar y panel yn fawr, gan ei fod yn gwneud i mi deimlo mod i'n cael effaith ar ran pobl ifanc Cymru, yn ogystal â rhannu fy marn gyda phobl o'r un anian. Yn ystod fy nghyfnod ar y panel, rydw i wedi cymryd rhan mewn llawer o gyfleoedd ychwanegol mae'r panel yn eu darparu, fel yr is-grŵp newid hinsawdd, lle mae blog yn cael ei greu, mae llythyr wedi cael ei anfon at awdurdodau lleol, a deiseb i roi pwysau ar y llywodraeth i sicrhau trafnidiaeth am ddim i rai o dan 18 oed, yn ogystal â syniadau eraill ar gyfer gwella'r effaith ar yr amgylchedd. Rwyf hefyd wedi bod yn rhan o gyfarfod gyda phobl ifanc o Dde Affrica a phanel plant ymgynghorol Western Cape, a buon ni'n rhannu gyda nhw beth rydyn ni'n gwneud a sut le yw Cymru, yn ogystal â chasglu gwybodaeth amdanyn nhw a beth maen nhw wedi'i wneud. Yn yr un modd, roeddwn i ac ambell un arall yn ffodus iawn bod Comisiynydd Plant Cymru wedi mynd â ni i ddigwyddiad newid hinsawdd o'r enw Dysgu Cymru'r Dyfodol, a'n bod ni wedi cael cyfle i wrando a siarad â phobl a sefydliadau eraill. Rydyn ni hefyd wedi trafod llawer o wahanol bynciau ar y panel, yn arbennig yr iaith Gymraeg, ei phwysigrwydd mewn ysgolion, a'i dysgu yn fwy fel pwnc galwedigaethol, ac ar ben hynny dysgu mwy o'i hanes. Ymhellach, buon ni'n trafod prydau ysgol am ddim, ynghyd â'r ffaith bod angen iddyn nhw fod yn iachach, gyda mwy o ddewis i lysieuwyr. Yn olaf, rydyn ni wedi trafod gwrthfwlio a gwrth-hiliaeth, yn ogystal â sicrhau mwy o amrywiaeth ym myd addysg.

Holly B

Rydw i'n wir wedi mwynhau bod yn rhan o banel ymgynghorol Comisiynydd Plant Cymru oherwydd mod i wedi dysgu llawer, yn ogystal â chael cyfle i drafod sut gallwch chi helpu gyda phethau sy'n cael effaith fawr. Roedd cwrdd â'r comisiynydd yn fraint, ac roedd yn ddiddorol siarad â hi, gan ein bod ni'n gallu manteisio ar yr un iaith. Yn ogystal â gweld sut mae'r holl bethau rydyn ni'n eu trafod yn cymryd rhai pethau i ystyriaeth er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Milton

Rydw i wedi mwynhau bod ar y panel, oherwydd mae hynny wedi rhoi cyfle i fi godi materion sy'n bwysig i fi. Mae bod ar y panel wedi fy ngalluogi i ddysgu am faterion sy'n parhau a sut mae Llywodraeth Cymru yn delio â nhw – yn enwedig yn ystod Covid. Mae'r panel wedi rhoi cyfle i fi gwrdd â swyddogion y Llywodraeth fel Kirsty Williams a Mark Drakeford. Mae cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau o'r fath yn sicrhau bod gwahanol safbwyntiau a chysyniadau yn cael eu hystyried.

Chloe

Mae'r panel ymgynghorol ieuenctid yn trafod pynciau sy'n effeithio ar blant yng Nghymru, er mwyn helpu'r comisiynydd i weld barn pobl ifanc. Rydyn ni'n cael cyfle i gwrdd â llwyth o bobl o wahanol rannau o Gymru. Rydyn ni hefyd yn cael cyfle i leisio barn ar lawer o bynciau pwysig, ac yn gwybod bod ein lleisiau wedi cael eu clywed. Fel aelod o'r is-grŵp newid hinsawdd fe fues i mewn derbyniad yn y Senedd ar gyfer Dysgu'r Dyfodol Cymru, yn ogystal â chymryd rhan yng nghyfarfodydd yr is-grŵp, lle rydyn ni'n canolbwyntio ar weithredu ynghylch yr hinsawdd. Rydw i hefyd wedi cwrdd â phobl ifanc o Dde Affrica dros zoom, ac fe gawson ni gyfle i gyfnewid gwybodaeth am ein gwledydd ein hunain.

Mae'r panel wedi trafod materion fel sut mae helpu pobl ifanc i ddeall eu hawliau plant, sut mae gwella iechyd corfforol a meddyliol pobl ifanc, a materion yn y cyfryngau cyfredol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

Mari




**Roedd y Panel Ymgynghorol Oedolion yn drist ei fod yn gorfod ffarwelio â Sally Holland wrth i'w chyfnod yn rôl y Comisiynydd Plant ddod i ben, ond yn falch o allu croesawu Rocio yn Gomisiynydd Plant newydd, a meithrin dealltwriaeth o'r syniadau cyffrous a oedd ganddi ar gyfer ei chyfnod yn y swydd. Mewn ymateb i'r gwaith cyffrous y mae'r Comisiynydd a'i thîm rhagorol o staff yn ymgymryd ag ef, aeth y Panel Ymgynghorol Oedolion trwy gyfnod pontio gan ein bod yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau ystod gadarn o leisiau a phrofiadau bywyd; felly aeth y Comisiynydd ati i wahodd aelodau newydd, a hynny dros dro.**

Bu i ni yn y panel dreulio llawer o amser yn trafod y gwaith Uchelgeisiau ar gyfer Cymru, o weithredu'r gwaith i gyhoeddi'r adroddiad pwysig, gan gymryd amser i drafod y canfyddiadau o bwys a'r modd y byddai hyn yn llunio'r cynllun gwaith tair blynedd ar gyfer y Comisiynydd. Uchafbwynt personol oedd y cyfarfod ar y cyd â'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc ym mis Gorffennaf '22, a hynny am ei bod yn hyfryd medru cael gwybod rhagor am y gwaith Uchelgeisiau ar gyfer Cymru gan yr aelodau, a chlywed am y materion sydd, yn eu barn nhw, yn wirioneddol bwysig i bobl ifanc, gan gynnwys materion o bwys megis tlodi plant.

Bydd y Bwrdd Ymgynghorol Oedolion Interim yn destun newidiadau cyffrous wrth i ni recriwtio aelodau parhaol yn ystod 2023, ac edrychwn ymlaen at weld pwy fydd yn ymgeisio a'r modd y gallwn gefnogi'r cynllun tair blynedd uchelgeisiol ar gyfer y Comisiynydd a'i thîm.

**Kelly Harris**
Cadeirydd dros-dro Panel Ymgynghorol Oedolion

# EIN HYMRWYMIADAU

Mae rhai safonau a dyletswyddau cenedlaethol y mae'n rhaid i ni, fel sefydliad, eu dilyn, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, Deddf Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth.

06

# Safonau'r Gymraeg

**Rydyn ni'n mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac rydyn ni wedi rhoi mesurau strwythuredig ar waith i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.**

Eleni, rydyn ni wedi parhau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, ac yn ystod ei misoedd cyntaf yn y swydd, cyhoeddodd y Comisiynydd ei haddewidion o ran y Gymraeg. Buon ni hefyd yn creu polisi cyflogaeth penodol gyda'r staff – Cymraeg yn y gweithle – sy'n amlinellu sut byddwn ni'n cyflawni ein rhwymedigaethau a amlinellwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru), yn ogystal â disgrifio ein dyheadau:

Ein dyhead yw bod y Gymraeg yn iaith weithredol, fyw yn ein sefydliad.





Yn ymarferol, mae hynny'n golygu:

- Bod y tîm yn ei defnyddio bob dydd, ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- Ei bod yn fwy na rhywbeth rydyn ni'n ei ddefnyddio i gyfleu negeseuon; mae'n ffordd o'n cysylltu â'n gilydd ac â'r rhai rydyn ni yma i'w cynrychioli.
- Ymhlith y rhai yn y Tîm sydd ddim yn siarad Cymraeg, mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth at ddysgu a'r iaith; ac
- Mae pawb yn cydnabod cyfraniad yr iaith i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Byddwn ni'n cymryd camau rhagweithiol i gefnogi a chynyddu defnydd o'r iaith yn ein gweithle, ac i gyflawni, ac mewn rhai achosion rhagori ar, ein rhwymedigaethau statudol o dan y safonau a amlinellir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 26 o bobl yn gweithio i'r Comisiynydd. O'r 26 yna, roedd,

- 10 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg;
- 2 yn disgrifio'u hunain fel rhai â sgiliau lefel ganolradd yn y Gymraeg;
- 5 yn disgrifio'u hunain fel rhai â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg;
- 9 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n methu siarad Cymraeg/sydd â Chymraeg lefel mynediad.



# Safonau Bioamrywiaeth

**Mae Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau i awdurdodau cyhoeddus.**

Yn 2019-20 fe wnaethon ni ddatblygu cynllun yn unol â phedair colofn ein fframwaith perfformiad (sy'n cwmpasu plant a phobl ifanc, staff y Comisiynydd, prosesau sefydliadol a sefydlogrwydd ariannol/gwerth am arian) mewn ymateb i'r ddyletswydd honno. Yn 2022-23 datblygodd y Comisiynydd ei Pholisi Cynaliadwyedd, sy'n ymgorffori'r dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae'r polisi hwn yn cael ei gryfhau ymhellach gan weithgor Llesiant y Comisiynydd, a bydd yn cyrraedd ei ffurf derfynol yn 2023-24.

# Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith cyfreithiol a fydd yn diogelu hawliau unigolion ac yn hybu cyfle cyfartal i bawb. Un o brif nodweddion y Ddeddf yw dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Cyflwynir dyletswyddau penodol sydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.**

Eleni, buon ni'n adolygu ein hamcanion cydraddoldeb strategol i sicrhau eu bod yn cyfateb i weledigaeth y Comisiynydd newydd, ac wedi'u seilio'n uniongyrchol ar gyfranogiad plant a phobl ifanc. Cyhoeddir ein cynllun ar gyfer 2023-2027 yma, ac mae'n cyfateb i bum colofn ein dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant:

- Gwreiddio hawliau plant
- Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd

Er tryloywder, rydyn ni wedi ymrwymo yn y strategaeth hon i gynnwys diweddariad ar ein camau gweithredu a'n cynnydd yn erbyn ein pedwar amcan cydraddoldeb strategol yn ein hadroddiadau blynyddol. Bydd y cyntaf o'r rheiny yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol mis Hydref 2024.



# EIN GWAITH AR FATERION POLISI ALLWEDDOL

Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn cyflwyno gwaith allweddol rydyn ni wedi'i wneud ar draws ystod o feysydd polisi eleni. Rydyn ni'n cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru, er mwyn iddyn nhw ddarparu ymateb ffurfiol yn eu tro.

07

I gychwyn, rydyn ni hefyd wedi amlygu rhai meysydd gwaith allweddol yr ydyn ni wedi ymgymryd â nhw ar lefel y Deyrnas Unedig. Er nad ydyn ni'n disgwyl ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn, maen nhw wedi'u cynnwys i ddangos pa mor eang yw'r gwaith a wnaed, a'n gwahanol ffyrdd o weithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru. Mae ein deddfwriaeth yn ein galluogi i amlygu materion sy'n effeithio ar blant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, a dyna pam mae'r meysydd gwaith canlynol wedi'u nodi yma.

# Materion ehangach sy'n effeithio ar blant Cymru

## Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn

Eleni rydyn ni wedi adrodd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn[1] ("Pwyllgor y CU"), ar y cyd â Chomisiynwyr Plant yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan ymgorffori tystiolaeth a gyhoeddwyd a barn plant a phobl ifanc yn yr adroddiad. Cyhoeddodd y Pwyllgor eu Sylwadau Terfynol[2] ym mis Mehefin 2023, ac maen nhw'n cynnwys argymhellion sydd wedi'u cyfeirio at Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r cenhedloedd datganoledig. Lle bo hynny'n berthnasol, rydyn ni wedi amlygu crynodeb o'r argymhellion a wnaethon nhw ym mhob maes, gan ychwanegu pwysau at ein hargymhellion ninnau.

## Deddfwriaeth Mudo Anghyfreithlon

Rydyn ni hefyd wedi gweithio ar y cyd â Chomisiynydd Plant Lloegr i ymateb i'r Bil Mudo Anghyfreithlon, wrth iddo fynd trwy'r Senedd. Roedd y Comisiynydd yn pryderu'n arbennig ynghylch lleihau'r amddiffyniad i blant sy'n cael eu cadw'n gaeth neu eu symud, plant yn methu hawlio lloches, defnyddio llety anaddas gan y Swyddfa Gartref, y gallai llai o fesurau diogelu olygu bod mwy o blant yn mynd 'ar goll', a'r pwerau arfaethedig i symud plant cyn gynted ag y bydden nhw'n 18 oed. Mewn datganiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, fe wnaethon ni nodi sut mae'r cynigion hyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd yn groes i bopeth rydyn ni yng Nghymru yn sefyll drosto fel Cenedl Noddfa[3].

Gwnaeth Pwyllgor y CU argymhellion penodol yn y maes hwn;

- Symleiddio a chryfhau'r ddarpariaeth gyfreithiol i blant gaffael statws preswyl a chenedligrwydd;
- Adlewyrchu lles pennaf y plentyn fel prif ystyriaeth ym mhob achos sy'n ymwneud â chenedligrwydd, trwy newid Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022;
- Newid y Bil Mudo Anghyfreithlon ar frys, gan ddileu unrhyw beth a fyddai'n torri hawliau plant a sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd â chyfraith hawliau dynol rhyngwladol. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â hawl plant i genedligrwydd, i geisio lloches, ac i sicrhau bod eu lles pennaf yn cael ei ystyried yn hyn o beth, ac i'w hatal rhag cael eu cadw'n gaeth am gyfnodau estynedig a'u symud i ffwrdd.

Er bod rhai newidiadau wedi'u gwneud yn ystod taith y Bil, siom fawr yw nodi bod sawl elfen roedden ni wedi'u codi, sy'n destun pryder mawr, yn dal yn eu lle.

## Ymchwiliad Covid y Deyrnas Unedig

Fe wnaethon ni geisio a derbyn statws cyfranogwr craidd ym Modiwl 2B o'r Ymchwiliad. Bydd y modiwl hwn yn archwilio ac yn gwneud argymhellion ynghylch penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol craidd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phandemig Covid-19 rhwng dechrau Ionawr 2020 a Mai 2022, pryd y codwyd y cyfyngiadau Covid-19 oedd yn weddill ar y pryd yng Nghymru. Roedden ni wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar Gylch Gorchwyl yr Ymchwiliad, gan nodi'r angen am ehangu'r gwaith fyddai dan sylw i sicrhau bod holl feysydd profiad plant yn cael eu hystyried, gan nodi'n arbennig yr effaith ar addysg yn ystod y cyfnod. Ar ben hynny, buon ni'n dadlau o blaid cynnwys ac ystyried barn a phrofiadau uniongyrchol plant yn fwy.

Rydyn ni wedi cyflwyno tystiolaeth gychwynnol, ac rydyn ni'n dal mewn cysylltiad â thîm yr Ymchwiliad wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer gwrandawiadau Modiwl 2B, sydd i gychwyn yn 2024. Mae hwn wedi bod yn ymrwymiad sylweddol i'n tîm bychan o staff ymateb iddo, gan ddarparu llawer o wybodaeth a dogfennau i'r Ymchwiliad eu hystyried, ond mae wedi bod yn ffordd bwysig i ni barhau i ddylanwadu ar sut mae'r Llywodraeth yn diogelu ac yn cynnal hawliau plant yn eu prosesau gwneud penderfyniadau.


1 Children's Commissioner for Scotland, Wales and Northern Ireland (2022) Commissioners' joint report to the United Nations. Ar gael yn: childcomwales.org.uk/publications/commissioners-joint-report-the-united-nations/

2 UN Committee on the Rights of the Child (2023) Concluding observations on the combined sixth and seventh periodic reports of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland. Ar gael yn: tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2FC%2FGBR%2FCO%2F6-7&Lang=en

3 Comisiynydd Plant Cymru (2023) Datganiad y Comisiynydd mewn ymateb i Fil Mudo Anghyfreithlon annerbyniol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ar gael yn: childcomwales.org.uk/2023/03/commissioners-statement-in-response-to-unacceptable-uk-government-illegal-migration-bill/

SAFON BYW SY'N DDIGONOL

# Tlodi Plant



# Mater

**Mae taclo tlodi plant wedi bod yn flaenoriaeth gyson i'r swyddfa, ac rydyn ni wedi trafod yn rheolaidd gyda Gweinidogion a swyddogion er mwyn pwyso am fesurau cliriach a chryfach gan Lywodraeth Cymru i roi sylw i'r mater parhaus hwn.**

Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 28% o blant yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn byw mewn tlodi rhwng 2019 a 2022. Fodd bynnag, mae'r ystadegyn hwn yn dyddio o'r cyfnod cyn yr argyfwng costau byw presennol, sydd wedi cael effaith anghymesur ar y teuluoedd tlotaf, ac felly mae'r ffigur tlodi plant gwirioneddol yn debygol o fod yn llawer uwch. Mae'n annerbyniol, felly, bod bron traean o blant Cymru yn byw mewn tlodi.

Roedd pwysau i fforddio pethau sylfaenol hefyd yn fater allweddol a godwyd gan yr 8000+ o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg yn 2022, Gobeithion i Gymru[4]:

Ymhlith yr ymatebwyr iau, 7-11 oed:

- Mae bron dau draean (61.1%) o blant yn pryderu a fydd gan eu teulu ddigon o arian;
- Mae bron hanner (44.8%) o blant yn pryderu ynghylch cael digon i'w fwyta.

Ymhlith yr ymatebwyr hŷn, 12-18 oed:

- Mae mwy na hanner (51.5%) y bobl ifanc 12-18 oed yn yr arolwg yn pryderu a fydd gan eu teulu ddigon o arian.
- Mae tua chwarter (24.9%) yn pryderu am fod â rhywle i fyw a digon i'w fwyta (25.8%).

Mae'r Comisiynydd wedi treulio cryn amser eleni yn trafod y mater pwysig hwn gyda phlant a theuluoedd, sefydliadau a llunwyr penderfyniadau. Mae'r Comisiynydd yn dal i bryderu, er bod gwaith yn cael ei wneud yn y maes hwn, nad yw plant a theuluoedd yn gweld effaith gadarnhaol o ran yr arian sydd ar gael iddyn nhw i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a'u safon byw.

Mae gan y Comisiynydd bum argymhelliad i Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael o ddifri â thlodi plant:

- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu manwl ar Dlodi Plant neu Strategaeth Tlodi Plant sy'n cynnwys camau gweithredu, targedau a cherrig milltir penodol i'w cyflawni;
- Gwella ansawdd, gyda chynhwysion iach, ochr yn ochr â pharhau i estyn Prydau Ysgol am ddim;
- Buddsoddi mwy mewn cyfleusterau Chwarae, Chwaraeon a Hamdden a Chymorth i Bobl Ifanc;
- Teithio am ddim ar y Bws i bob plentyn;
- Ystyried pwerau datganoledig pellach fel bod modd gwneud Taliad Plentyn tebyg i'r Alban.

## Sylwadau Terfynol y CU:

Argymhelliad Pwyllgor y CU oedd y dylai llywodraethau ddatblygu neu gryfhau eu polisïau, fel bod ganddyn nhw'r canlynol:

- **Targedau clir;**
- **Dangosyddion mesuradwy; a**
- **Threfniadau monitro ac atebolrwydd cadarn.**

Rydyn ni'n annog Llywodraeth Cymru i weithio'n gyflym i gyflawni'r targedau a'r dangosyddion hyn, ynghyd â fframwaith monitro cadarn y gall y cyhoedd yng Nghymru alw'r llywodraeth i gyfrif yn ei erbyn. Mae angen i'r gwaith hwn gynnwys lleisiau plant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru mewn modd sensitif.

4 https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/gobeithion-i-gymru/gobeithion-i-gymru-canfyddiadau/

# Gwaith ar draws y Deyrnas Unedig

**Gan gydnabod mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd mewn sefyllfa i weithredu ar rai o'r materion cysylltiedig â thlodi plant, rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu datganiadau ar y cyd â Chomisiynwyr Plant yr Alban a Gogledd Iwerddon eleni.**

Yn dilyn datganiad hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig, nododd y tri Chomisiynydd fod pob un ohonynt wedi clywed yn uniongyrchol gan blant sut maen nhw'n teimlo bod tlodi yn eu hamddifadu o'u plentyndod, a buon nhw'n galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i ddefnyddio'r holl adnoddau oedd ar gael hyd eithaf eu gallu i sicrhau hawliau plant; roedd eu hymatebion a gyhoeddwyd yn cynnwys pedair galwad glir ar Lywodraethau i wneud y canlynol ar frys:

- Cynyddu incwm teuluoedd mewn tlodi, trwy daliadau plant, a sicrhau bod mwy o'r rhai sy'n gallu cael cymorth yn ei hawlio
- Diwygio'r system nawdd cymdeithasol, adolygu'r trothwyon cymorth, a dileu'r cap cosbol ar fudd-daliadau a'r terfyn dau blentyn
- Lleihau'r costau i deuluoedd, yn arbennig y costau sy'n gysylltiedig ag addysg, trafnidiaeth, a dyled i awdurdodau cyhoeddus
- Targedu ymyriadau at deuluoedd mewn sefyllfaoedd bregus, a sicrhau bod teuluoedd yn gallu cyrchu gofal plant fforddiadwy o safon uchel.


## Argymhellion

Rhaid i Lywodraeth Cymru greu cynllun gweithredu ar dlodi plant, ochr yn ochr â fframwaith monitro clir â thargedau amser-benodol, mesuradwy, a threfniadau atebolrwydd cadarn, fel bod modd cael mewnbwn sensitif gan blant a phobl ifanc.

Rhaid cyhoeddi hyn yn nhymor Senedd 2023/24.

SAFON BYW SY'N DDIGONOL

# Argyfwng yr Hinsawdd



# Mater

**Codwyd y blaned a'r newid yn yr hinsawdd fel mater allweddol yn ein Harolwg 'Gobeithion i Gymru':**

- Y blaned oedd yn peri pryder amlaf i blant 7-11 oed, gydag 82.8% o'r plant 7-11 oed yn dweud eu bod yn pryderu am hyn; roedd y ganran yma'n uwch ymhlith plant o gefndir ethnig lleiafrifol (85.3%).
- Roedd hyn hefyd yn destun pryder cyffredinol i bobl ifanc 12-18 oed, gyda 79.5% o bobl ifanc yn pryderu am y mater yma. Roedd pobl ifanc ag anableddau yn pryderu'n sylweddol fwy nag eraill amdano.

Ym mis Ionawr 2023, ffurfiodd ein panel Ymgynghorol Pobl Ifanc is-grŵp â ffocws ar weithredu ynghylch yr hinsawdd, ar y sail bod y panel yn galw am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i rai o dan 18 oed. Sefydlodd aelod o'r is-grŵp ddeiseb i'r Senedd yn galw am drafnidiaeth am ddim i bobl ifanc o dan 18 yng Nghymru, gan gyfeirio at y manteision amgylcheddol a llesiant. Casglwyd 381 o lofnodion, a bydd y Pwyllgor Deisebau yn trafod y mater ar 11 Medi 2023.

Yn ystod 2022, buon ni'n gweithio gydag 16 aelod o'n Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc ar y thema – "Let's Talk Young, Let's Talk about Climate Justice", fel rhan o brosiect cyfranogiad blynyddol ENYA (Rhwydwaith Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop). Fe wnaeth y grŵp gyfarfod i drafod a datblygu argymhellion polisi, gan ystyried effaith Newid Hinsawdd ar hawliau plant, gyda ffocws ar weithredu ynghylch yr hinsawdd, cyfranogiad, defnydd o adnoddau ac ôl troed carbon. Cyflwynodd dau gynrychiolydd yr argymhellion polisi yn fforwm ENYA yng Ngwlad y Basg. Cyflwynwyd argymhellion terfynol, gan gynnwys galwad am *"Drafnidiaeth gyhoeddus hygyrch ddi-dâl i bawb o dan 18 oed, a fydd yn annog arferion gydol oes ac yn lleihau allyriadau carbon unigolion"* a'u trafod gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd.

Mae'r gwaith yma wedi dylanwadu ar Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, a gynhyrchodd eu Sylw Cyffredinol rhif 26 ar hawliau plant a'r amgylchedd, gyda ffocws arbennig ar y newid yn yr hinsawdd yn 2023.

Rydyn ni wedi cwrdd â'r Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, gan drafod pryderon fel effaith newid hinsawdd, tlodi, trafnidiaeth gyhoeddus ac ymwneud pobl ifanc â gweithredu ynghylch yr hinsawdd. Mae'r swyddfa wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd yn y Gweithredu ynghylch Newid Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2022, gan amlygu pwysigrwydd cyfranogiad plant a'r angen am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar hyd y broses hon. Fe wnaethon ni ymateb hefyd i 'Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru', lle buon ni'n amlygu eto yr angen am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy'r broses ymgynghori. Er bod hwn yn fater hynod o bwysig sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, doedd dim cyfle i bobl ifanc ymgysylltu'n ystyrlon â'r cynigion. Dywedodd swyddogion wrthyn ni y byddai cynlluniau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynghylch y camau ôl-ddeddfwriaethol, ond bydd yn rhy hwyr i aros tan ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio i ddechrau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn deall beth fydd eu blaenoriaethau o ran defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Bu cynrychiolydd o'r swyddfa hefyd yn cyfrannu at y gweithgor oedd yn ystyried prif-ffrydio cydraddoldeb a phontio cyfiawn i Sero Net.

# Sylwadau Terfynol y CU:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol ag ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol;
- Deddfu ynghylch ansawdd aer a rhoi mesurau ar waith ar frys i wella ansawdd aer mewn ardaloedd trefol;
- Polisïau cenedlaethol i roi sylw i amddiffyn yr amgylchedd, y newid yn yr hinsawdd a rheoli risg trychinebau, gan gymryd anghenion a barn plant i ystyriaeth;
- Gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant o gyfreithiau a chanllawiau cysylltiedig â'r hinsawdd, a'u hawliau o ran amgylchedd glân a'r safonau iechyd uchaf posibl.

## Argymhelliad

Er mwyn rhoi sylw i dlodi plant ac argyfwng yr hinsawdd, dylai'r cynllun gweithredu ar dlodi plant gynnwys ymrwymiad i beilot trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn y tymor Senedd hwn.

ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES

# Iechyd meddwl a llesiant



# Mater

**Mae iechyd meddwl a llesiant yn dal yn fater o bwys i blant ledled Cymru, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn ein harolwg cenedlaethol Gobeithion i Gymru.**

**Roedd bron dau draean o blant 7-11 oed yn pryderu ynghylch eu hiechyd meddwl neu eu llesiant (63.2%). Roedd plant o'r teuluoedd lleiaf cefnog yn fwy tebygol o bryderu am eu hiechyd meddwl na'r rhai oedd yn fwy cefnog, ac roedd y gwahaniaeth hwnnw'n un ystadegol arwyddocaol. Roedd plant ag anableddau yn fwy tebygol o bryderu am eu hiechyd meddwl.**

Mae dau draean o bobl ifanc 12-18 oed (66.6%) yn pryderu am eu hiechyd meddwl neu eu llesiant. Mae pobl ifanc o'r teuluoedd lleiaf cefnog yn fwy tebygol o bryderu am eu hiechyd meddwl a'u llesiant na'r rhai o deuluoedd mwy cefnog, ac mae'r gwahaniaeth hwnnw'n un ystadegol arwyddocaol. Roedd pobl ifanc ag anableddau yn fwy tebygol o bryderu am eu hiechyd meddwl. Mae bron tri chwarter (73.3%) y bobl ifanc yn y categori lleiaf cefnog yn pryderu am eu hiechyd meddwl, o gymharu â dau draean (63.9%) yn y categori mwyaf cefnog.

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan y Senedd Ieuenctid, mae mwy nag 1 o bob 4 (28%) person ifanc yn dweud eu bod yn cael trafferthion o ran teimladau neu iechyd meddwl bob dydd[5].

Ar gyfer y rhai sydd â lefel isel o lesiant, neu salwch meddwl lefel is, rhaid i ni wella ein cefnogaeth ataliol mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae'r Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan i'w groesawu'n fawr, ac mae'n dechrau gwneud gwahaniaeth mewn ysgolion yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod plant eu hunain yn gwybod amdano, a sut gallan nhw ddisgwyl i'w hysgol greu amgylchedd cefnogol a'u helpu i gael mynediad at gymorth pellach pan fydd angen. Mae hynny'n cynnwys mynediad at gwnsela. Mewn adolygiad o wasanaethau cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned yn 2022, nodwyd problemau ynghylch llwybrau atgyfeirio a hygyrchedd cyffredinol gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned. Roedd y gwerthusiad yn argymell estyn y cynnig cwnsela i ddisgyblion ysgol gynradd (ar hyn o bryd mae ar gael i blant ym mlwyddyn 6 ac i fyny). Dangosodd y data diweddaraf o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) fod 61.8% o bobl ifanc 11-16 oed yn dweud eu bod yn teimlo bod cefnogaeth yn yr ysgol i fyfyrwyr sy'n teimlo'n anhapus, yn bryderus, neu eu bod yn methu ymdopi. Mae hynny wedi gostwng o 66.8% yn 2019, ac o 72.8% yn 2017.[6] Dylai fod gan blant ffydd lwyr y bydd eu hysgol yn eu cefnogi, ac y byddan nhw'n cael eu cyfeirio ymlaen, os bydd angen hynny, a'u cefnogi i gael mynediad at gymorth pellach.

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn awr wedi symud drosodd i system 'un pwynt mynediad' ar gyfer darparu gofal iechyd meddwl i blant. Mae hyn i'w groesawu, ac mae wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn yr atgyfeiriadau i CAMHS eilaidd[7], yn ogystal â'r ffaith bod yr atgyfeiriadau hynny'n cael eu gweld yn gynt gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Mae hyn i'w groesawu, ond nid yw'r ystadegau'n dweud wrthyn ni pa gefnogaeth mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn ei derbyn mewn gwirionedd. Ac mae gwelliant pellach yn dal yn angenrheidiol, gan fod ffigurau diweddaraf CAMHS sylfaenol[8] o fis Mawrth 2023 yn dangos mai 67.9% o blant yn unig gafodd eu hasesiadau o fewn yr amser targed, sef 28 diwrnod wedi atgyfeirio.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Senedd Ieuenctid Cymru eu hadroddiad 'Meddyliau Iau o Bwys' ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o adroddiad blaenorol a gyhoeddwyd yn 2020, ac ni welwyd fawr ddim cynnydd ers hynny. Gwnaeth yr adroddiad sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys galwadau am 'siop un stop ganolog gydnabyddedig ar gyfer gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth'. Mae'r Senedd Ieuenctid wedi bod yn galw am hyn ers 2020. Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r adroddiad pwysig hwn.

5 Senedd Ieuenctid Cymru (2022) Meddyliau Iau o Bwys. Ar gael yn: youthparliament.senedd.wales/media/4sxay1zs/young-minds-matter-mental-health-report.pdf

6 Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) School Health Research Network (SHRN) Data Dashboard. Ar gael yn: publichealthwales.shinyapps.io/SHRN_Dashboard/

7 Llywodraeth Cymru (2023) Amserau aros ar gyfer apwyntiad cyntaf. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Mental-Health/specialist-child-and-adolescent-mental-health-services-scamhs/first-appointment-waiting-times/percentageofscamhspatientpathwayswaitingforafirstappointment-by-month-groupedweeks

8 Llywodraeth Cymru (2023) Rhan 1: gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl sylfaenol lleol. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Mental-Health/Mental-Health-Measure/Part-1

## Sylwadau Terfynol y CU:

- **Cryfhau'r mesurau i sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac arbenigol o safon, sensitif i blant ac oed-briodol i bob plentyn;**
- **Rhoi sylw i orgynrychiolaeth plant o grwpiau lleiafrifol, plant ag awtistiaeth a phlant ag anableddau dysgu ym maes gofal iechyd meddwl cleifion mewnol;**
- **Cryfhau mesurau i roi sylw i achosion gwaelodol iechyd meddwl gwael, anhwylderau bwyta ac ymddygiad arall hunan-niweidiol ymhlith plant, a buddsoddi mewn mesurau ataliol.**

## Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu'n glir ac yn derbyn sylw yn eu Strategaeth newydd Iechyd Meddwl, a bod argymhellion o adroddiad y Senedd Ieuenctid, Meddyliau Iau o Bwys, yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth hon.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariad yn ystod 2023/4 ar eu cynnydd yn erbyn argymhellion y Senedd Ieuenctid yn eu hadroddiad Meddyliau Iau o Bwys.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gweithrediad y Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cael ei fonitro'n fanwl i sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau a fwriadwyd, yn rhoi sylw i anghenion y rhai â nodweddion gwarchodedig, ac yn ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES

# Rhaglen Plentyn Iach Cymru

# Mater

**Mae rhaglen Plentyn Iach Cymru yn nodi'r cysylltiadau y dylai byrddau iechyd eu darparu i deuluoedd â phlant 0-7 oed o ran ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol.**

Effeithiodd y pandemig yn fawr ar y gwasanaethau hyn. Yn y ffigurau a adroddwyd[9], er bod rhai byrddau iechyd wedi dychwelyd at lefelau cyswllt â theuluoedd sy'n cyfateb i'r cyfnod cyn y pandemig, mae eraill yn dal i sôn am ganran isel o gyswllt, sy'n destun pryder. Fodd bynnag, rydyn ni'n cael ar ddeall bod problemau gyda safon y data, yn rhannol oherwydd dibyniaeth ar gofnodion papur ac oedi wrth adrodd. P'un bynnag sy'n gywir, mae hyn yn destun pryder mawr, a rhaid ei gywiro. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y materion hyn, a bydden ni'n disgwyl gweld y ffigurau hyn yn gwella yn y flwyddyn ariannol hon, gan ein bod ni'n dal i glywed am deuluoedd sy'n aros am gyfnodau hir heb gyswllt.

Mae'r cynigion ar gyfer y rhaglen Actif bob Dydd yn cyflwyno dull ysgol gyfan o ymdrin â gweithgarwch corfforol, gan geisio gwella lles corff a meddwl plant yng Nghymru. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhaglen, rydyn ni'n deall bod oedi o ran ei chyllido.

## Sylwadau Terfynol y CU:

- **Cryfhau mesurau i roi sylw i gamfaethiad plant, ansicrwydd bwyd a thueddiadau cynyddol o ran bod dros bwysau ac yn ordew, gan gynnwys trwy hybu ffyrdd iach o fyw a gweithgarwch corfforol**

## Argymhellion

- Rhaid i Lywodraeth Cymru, ar y cyd â GIG Cymru, sicrhau bod byrddau iechyd lleol mewn sefyllfa i fewnbynnu data cywir ac amserlen ar gyfer rhaglen Plentyn Iach Cymru, er mwyn dangos eu bod yn cadw at y trefniadau sgrinio, imiwneiddio a chyfarfodydd monitro y gall teuluoedd eu disgwyl.
- Dylai'r Rhaglen Actif bob Dydd gychwyn yn ddi-oed

9 Llywodraeth Cymru (2023) Rhaglen Plentyn Iach Cymru.
Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Primary-and-Community-Activity/Healthy-Child-Wales-Programme

ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES

# Fêpio/ E-sigarets



# Mater

**Mae 'fêpio' neu e-sigarets wedi dod i'r amlwg yn gyson fel pryder allweddol i blant a phobl ifanc, yn ogystal â thestun pryder i athrawon a gweithwyr iechyd proffesiynol.**

Ym mis Awst 2022, fe wnaethon ni ofyn i'n Panel Ymgynghorol pobl ifanc 'sut gall Rocio wneud Cymru'n lle gwell i fyw' yn ystod Cyfnod 1 o'n prosiect Gobeithion i Gymru:

- Cynyddu treth fêpio ac ystod oed i bobl sy'n gwerthu fêpiau, a sicrhau eu bod yn cael prawf adnabod
- Mae fêpiau a fêpio yn troi'n broblemau mwy yn gyflym – mae hynny'n digwydd mewn llawer o leoedd fel parciau ac ysgolion
- Mae fêpio yn targedu plant o ran marchnata e.e. blas mwyaf gleision ac uncorn, ac mae'r pecynnu'n lliwgar.

Fe wnaethon ni rannu ein syniadau ar gyfer ein strategaeth 3 blynedd gyda'r panel ym mis Chwefror 2023, a gofyn oedd unrhyw beth ar goll. Dyma rai o'r pethau ddwedson nhw:

- Mae problemau fel fêpio yn cael eu normaleiddio, felly maen nhw'n tyfu. Dyw athrawon ddim wir yn cymryd y peth o ddifri. Pwysau cyfoedion.
- Mae fêpio yn broblem anferth.
- Fêpio: mae plant mewn ysgolion uwchradd, yr holl ffordd o flwyddyn 7 i fyny, yn gwneud hyn.
- Mae siopau fêpio i weld yn agos iawn at ysgolion uwchradd.
- Dyw athrawon ddim yn plismona hyn o gwbl.
- Gwell ymwybyddiaeth o niwed fêpio mewn ysgolion.
- Yn aml yn cael eu marchnata i blant a phobl ifanc – lliwgar ac amrywiaeth o flasau.
- Fforddiadwy – yn aml o dan £10, gyda chynigion niferus.
- Mae peniau fêpio untro yn eithriadol niweidiol i'r amgylchedd.

Ym mis Mawrth 2023, aeth y Comisiynydd i Hawl i Holi Ieuenctid Gwent, lle bu dros 120 o bobl ifanc yn gofyn cwestiynau i banel oedd yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent, Prif Gwnstabl o'r heddlu, Ymgynghorydd Iechyd Rhyw a'r Comisiynydd. Codwyd fêpio gan lawer o bobl ifanc yn y fan hon, ac roedden nhw'n amlygu pa mor hygyrch yw fêpiau i blant a phobl ifanc. Cododd athrawon bryderon hefyd am eu hygyrchedd a'r diffyg adnoddau addysgol i addysgu plant am beryglon fêpio.

O ganlyniad, bu'r Comisiynydd yn trafod hyn gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yn codi'r pryderon gyda Gweinidogion y Llywodraeth.

# Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir i ysgolion ar gyfer rheoleiddio fêpio.
- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymgyrch iechyd cyhoeddus plant a phobl ifanc, gan amlygu peryglon hysbys a phosibl fêpio.

ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES

# Gwasanaethau hunaniaeth rhywedd



# Mater

**Caiff gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant yng Nghymru eu comisiynu o'r GIG yn Lloegr. Mae'r fanyleb interim a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gwasanaeth hwn yn destun pryder mawr, ac mae'n groes i hawliau dynol plant, gan gynnwys erthygl 24 (yr hawl i ofal iechyd o'r safon uchaf). Mae manyleb gwasanaeth GIG Lloegr yn nodi:**

- na chaiff plant fynediad at driniaeth i ffrwyno'r glasoed ond os byddan nhw'n ymrwymo i gymryd rhan mewn ymchwil glinigol;
- y dylai fod cyfyngiadau ar y gefnogaeth i bontio'n gymdeithasol oni bai bod hynny wedi'i gymeradwyo'n glinigol.

Mae hyn yn destun pryder mawr, ac mae'n aneglur a allai gofyniad o'r fath fod yn gyfreithlon ac yn gyfystyr â chydsyniad rhydd a gwybodus.

Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop. Ymddengys bod y gwasanaeth presennol sy'n cael ei ddarparu yn Lloegr, ond i blant yng Nghymru hefyd, yn gwrthdaro â chynllun gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru.

## Sylwadau terfynol y CU:

- **Mynd ati ar frys i roi sylw i'r amserau aros hir mae plant trawsrywedd a rhai sy'n cwestiynu rhywedd yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethau iechyd arbenigol, gwella safon y gwasanaethau hynny, a sicrhau bod barn plant yn cael ei chymryd i ystyriaeth ym mhob penderfyniad sy'n effeithio ar eu triniaeth.**

## Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu gwaith yr ymrwymwyd iddo yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar archwilio Gwasanaeth Rhywedd Cymreig i blant a phobl ifanc, yn lle dibynnu ar gomisiynu gwasanaethau o'r GIG yn Lloegr.

Dylid sefydlu gwasanaeth hunaniaeth rhywedd newydd i Gymru.

AMGYLCHEDD Y TEULU
A GOFAL AMGEN

# Gofal cymdeithasol a diwygio radical



# Mater

**Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cyflwyno nifer sylweddol o ymrwymiadau i gyflawni diwygio radical yn achos gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Mae yma botensial i gyflawni newidiadau sylweddol i blant a theuluoedd, ond nid yw bob amser wedi bod yn eglur sut na phryd bydd y newidiadau sy'n rhan o'r agenda hon o ddiwygio radical yn cael eu cyflawni.**

Rydyn ni wedi codi'r pryderon hyn mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'i Swyddogion, ac wedi ceisio egluro ei fod yn hanfodol bwysig bod Llywodraeth Cymru yn medru rhoi cyfrif i blant am y cynnydd maen nhw'n ei wneud, neu nad ydyn nhw'n ei wneud tuag at newidiadau mor sylfaenol.

Dyna pam rydyn ni wedi bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu clir yn nodi pa newidiadau fydd yn cael eu rhoi ar waith a phryd. Mae i'w groesawu bod fersiynau cynnar o ffordd ymlaen wedi cael eu datblygu, ond nid yw'r drafftiau rydyn ni wedi'u gweld yn cyfateb i'r weledigaeth a gyflwynwyd yn y Datganiad a ddatblygwyd gyda phobl ifanc yn yr Uwchgynhadledd ym mis Rhagfyr 2022.

Er mwyn gweld darlun llawn o'r gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y maes hwn, bydden ni'n hoffi gweld cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n cynnwys pob ymrwymiad a geir yn y Rhaglen Lywodraethu, argymhellion a wnaed gan ein Swyddfa (megis deddfu i amddiffyn yr hawl i gefnogaeth cynghorydd personol i ymadawyr gofal hyd at 25 oed) a darnau eraill pwysig o waith a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chamau gweithredu a therfynau amser clir.

Rydyn ni hefyd am weld diweddariadau cynnydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd, yn arbennig i'r bobl ifanc sydd wedi rhannu eu profiadau bywyd eu hunain â'r fath angerdd, gan obeithio llywio dyfodol gwell i'r plant sy'n tyfu i fyny mewn gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried Uwchgynhadledd Diwygio Radical dilynol gyda phobl ifanc, a fydd yn gyfle i'w groesawu i blant graffu ar gyflawniad yn y maes hwn. Bydden ni'n hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn ystyried adroddiadau blynyddol i blant, yn unol â'r ymrwymiad yn y Datganiad.

Camau rydyn ni wedi'u cymryd ochr yn ochr â'r gwaith yma:

- Trwy ein rôl ar Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, fe wnaethon ni gyfrannu at ffurfio Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru 'Addewid Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023.[10] Roedden ni'n falch bod ein newidiadau wedi cael eu hadlewyrchu yn y drafft terfynol, oedd yn cynnwys cyfeiriadau cryf at yr hawliau sydd gan blant.
- Ym mis Medi 2022, ysgrifennodd y Comisiynydd at y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch yr Agenda Diwygio Radical.
- Ym mis Rhagfyr 2022, fe aethon ni i'r uwchgynhadledd Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal, gan hwyluso sgyrsiau rhwng pobl ifanc a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â Lleisiau o Ofal Cymru. Bu hynny o gymorth i sicrhau bod Gweinidogion yn clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am y pethau oedd yn bwysig iddyn nhw. Arweiniodd y sgyrsiau hyn, oedd ddim yn osgoi trafod pynciau anodd, at ddrafftio datganiad, sy'n cyflwyno gweledigaeth a rennir er mwyn helpu i gyflawni diwygio radical yn y gwasanaethau plant.[11]
- Rydyn ni hefyd wedi mynychu Grŵp Cyflawni Trawsffurfio Llywodraeth Cymru, o fis Ionawr 2023.
- Er bod y Datganiad yn dangos yn eglur y safonau mae Llywodraeth Cymru a Phobl Ifanc yn eu disgwyl gan wasanaethau sy'n ymwneud â gofalu am blant, rydyn ni wedi parhau i godi gyda Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru yr angen am fwy o fanylion ynghylch sut cyrhaeddir y safonau hynny.

10 gov.wales/corporate-parenting-charter
11 gov.wales/sites/default/files/publications/2023-05/radical-reform-summit.pdf

## Sylw Terfynol y CU:

- **Sicrhau bod systemau amddiffyn plant yn defnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.**

---

## Argymhellion

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi map manwl o'r holl gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Diwygio Rhaglen Gofal Cymdeithasol Plant yn Radical, gan gynnwys symud ymlaen gyda'r camau a gymerwyd yng nghyswllt amddiffyn a diogelu plant. Dylai hyn gael ei seilio ar derfynau amser a dangosyddion deilliannau.

Rhaid cael adroddiad blynyddol ar hyn i sicrhau bod modd i blant ac oedolion alw'r Llywodraeth i gyfrif o ran cynnydd tuag at eu gweledigaeth ar gyfer diwygio.

AMGYLCHEDD Y TEULU
A GOFAL AMGEN

# Diogelu Plant

# Mater

**Mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru yn byw bywydau diogel, hapus. Roedd canlyniadau ein harolwg Gobeithion i Gymru yn dangos mai treulio amser gyda'u teulu a'u ffrindiau oedd yr atebion a gafwyd amlaf gan blant wrth eu holi beth sy'n eu gwneud nhw'n hapus.**

Yng Nghymru, mae gennym ni ganllawiau cadarn yn eu lle i gefnogi diogelu plant a phobl ifanc. Cyflwynir y rhain yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Fodd bynnag, yn dilyn marwolaeth drasig Logan Mwangi, cyflwynwyd argymhellion ynghylch sut dylid cryfhau diogelu ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau amddiffyniad gwell i blant oedd yn wynebu perygl niwed a chamdriniaeth. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion cenedlaethol i adolygu Cynadleddau Amddiffyn Plant a chomisiynu adolygiad llawn o systemau cofnodi, casglu a rhannu gwybodaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg a'r Heddlu.

Bu gennym bryderon ynghylch y trefniadau atebolrwydd a llywodraethiant yng nghyswllt dysgu o Adolygiadau. Ym mis Mai 2022, fe wnaethon ni ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn nodi'r pryderon hyn, ac yn ceisio barn Llywodraeth Cymru ar effeithiolrwydd dulliau a strwythurau llywodraethu diogelu yng Nghymru.

Bu'r Comisiynydd hefyd yn cwrdd â Chadeirydd Annibynnol Adolygiad Logan Mwangi a bwrdd diogelu CYSUR yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch Adolygiad Kaylea Titford.

Wedi cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Plant Cwm Taf Morgannwg, soniodd y Comisiynydd am y pryderon parhaus. Fe wnaethon ni ysgrifennu eto at Lywodraeth Cymru i rannu'r pryderon hyn ac annog cynnwys y maes diogelu hwn mewn unrhyw adolygiad gan Lywodraeth CYmru er mwyn meithrin hyder bod gennym ni systemau atebolrwydd a llywodraethiant cryf ar waith. Bu swyddogion hefyd yn cwrdd ag Arolygiaeth Gofal Cymru i helpu i lunio'u Hadolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant.

Ym mis Rhagfyr 2022 fe wnaethon ni gwrdd â Swyddogion Llywodraeth Cymru i ddysgu mwy am y cynigion ar gyfer proses yr Adolygiad Diogelu Sengl Unedig (SUSR), a fu'n destun ymgynghori cyhoeddus ym mis Mai 2023. Rydyn ni wedi egluro, er y bydd y cynigion yn helpu i sicrhau trosolwg gwell o'r argymhellion sy'n deillio o adolygiadau, y bydd lledaenu'r dysgu a monitro gweithrediad argymhellion yn dal i ddibynnu ar strwythurau sydd eisoes yn bodoli. Nid ydym wedi bod yn hyderus y bydd yr SUSR ym mynd yn ddigon pell wrth ymdrin â'n pryderon fel swyddfa.

Yn 2023, cyhoeddir nifer o ddarnau allweddol o waith sy'n debygol o gyfrannu'n sylweddol at dirlun polisi a deddfwriaeth diogelu plant yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a adnewyddwyd ar Atal Cam-drin Plant yn rhywiol, ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion SUSR, ac adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol. Byddwn ni'n craffu'n fanwl ar y cyhoeddiadau hyn i sicrhau bod digon o atebolrwydd yn y system amddiffyn plant yng Nghymru, a byddwn ni'n cymryd camau pellach ein hunain os byddwn ni'n dal i bryderu.

# Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol

Mae ein Swyddfa wedi parhau i ddod â sefydliadau at ei gilydd trwy'r Ford Gron ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol. Yn 2022-23, mae'r Ford Gron wedi bod yn lle i archwilio i ba raddau mae Argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cael eu gwreiddio, craffu arnyn nhw, a'u bwydo i'r adolygiad o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol. Mae'r ford gron wedi bod yn lle i rannu adnoddau newydd ac offer ymarfer er mwyn cefnogi arloesedd yn y maes cefnogi pwysig yma i blant. Mae hefyd wedi galluogi sefydliadau i rannu diweddariadau ar y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Mae ein Swyddfa wedi'i chysylltu â Rhwydwaith Llunwyr Newid IICSA fel cynrychiolydd Cymru, gyda hawl i arsylwi. Rydyn ni hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Adroddiadau Gorfodol, a fyddai'n creu dyletswydd gyfreithiol i roi gwybod am ddatgeliadau ynghylch cam-drin rhywiol.

## Sylwadau terfynol y CU:

- **Cryfhau'r mesurau sy'n ceisio taclo trais yn erbyn plant, gan gynnwys rhoi argymhellion yr ymchwiliad annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol (IICSA) ar waith;**
- **Gwella'r hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a throstyn nhw, er mwyn nodi ac ymateb yn effeithiol i achosion o drais, gan gynnwys ecsbloetio rhywiol;**
- **Sicrhau bod data ar faterion amddiffyn plant a thrais yn erbyn plant yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n systematig er mwyn llywio gweithrediad strategaethau cenedlaethol ar drais a cham-drin plant yn rhywiol.**

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau sut bydd y cynigion ar gyfer adolygiad Diogelu Sengl Unedig yn rhoi sicrwydd digonol y bydd y dysgu sy'n deillio o adolygiadau ymarfer plant yn cael ei weithredu a'i fonitro.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a adnewyddwyd ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol yn ymateb yn effeithiol i argymhellion ymchwiliad IICSA ac yn ymgorffori barn plant a phobl ifanc mewn modd sensitif.

AMGYLCHEDD Y TEULU
A GOFAL AMGEN

# Tai Diogel i Blant Agored i Niwed



# Mater

**Rydyn ni'n pryderu bod rhai plant sy'n derbyn gofal yn byw mewn mannau sydd heb eu cofrestru, eu harchwilio na'u cymeradwyo gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yr enw ar y rhain yw 'lleoliadau heb eu cofrestru' neu OWR – rhai sy'n gweithredu heb gofrestriad.**

Rhaid i bob man sy'n gofalu am blant fodloni'r safonau uchel sy'n ddisgwyliedig. Mae'r gyfraith yng Nghymru yn nodi beth yw'r safonau a'r disgwyliadau hyn. Mae'r safonau hyn yn bwysig oherwydd mai eu nod yw cadw plant yn ddiogel a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu gwireddu.

Mae llawer o resymau pam gallai plant fod yn byw mewn 'lleoliadau heb eu cofrestru'. Mae oedolion a sefydliadau, fel Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, yn ceisio dod o hyd i atebion er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn byw mewn man lle gallan nhw gael gofal a help i gyflawni eu potensial.

Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod ateb yn cael ei ganfod i'r sefyllfa hon, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu byw yn y man sy'n cynnig y gofal mwyaf addas.

Dyna pam rydyn ni wedi galw am ddatblygu darpariaeth a gomisiynwyd ar y cyd, i gefnogi plant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Fe wnaethon ni ymateb i alwad y Pwyllgor PPIA am dystiolaeth a mynegi'n pryderon ynghylch y prinder lleoliadau cofrestredig a'r cynnydd yn y lleoliadau sy'n gweithredu heb gofrestriad (OWR). Fe wnaethon ni godi'r rhain hefyd yn Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Newidiadau i Ddeddfwriaeth Sylfaenol Gofal Cymdeithasol.

Rydyn ni wedi cwrdd yn rheolaidd â Swyddogion Llywodraeth Cymru ac AGC i drafod hyn, yn ogystal â chwrdd â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan er mwyn deall yn well pa gamau sy'n angenrheidiol i atal y lleoliadau hyn.

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl sy'n gweithio gyda phlant yn rhannu'r pryderon hyn, gan gynnwys y llysoedd teulu, gan ein bod wedi derbyn gohebiaeth gan Farnwyr mewn achosion lle mae problemau digonolrwydd lleoliadau wedi achosi, ac yn parhau i achosi anawsterau. Yn dilyn ein hargymhelliad, fel rhan o Raglen Dileu Elw Llywodraeth Cymru, mae llif gwaith wedi'i neilltuo ar gyfer archwilio'r mater hwn.

Mae wedi bod yn destun pryder i ni bod lleisiau'r plant y mae hyn yn effeithio fwyaf arnyn nhw ddim yn cael eu clywed. Dyna pam rydyn ni wedi ymrwymo i wneud darn o waith a fydd yn cysylltu â phlant sy'n byw mewn lleoliadau OWR, neu sydd wedi byw ynddyn nhw, er mwyn deall eu profiadau.

.

## Sylw Terfynol y CU:

- **Gwahardd ac atal lleoli plant mewn gofal diogel neu gartrefi gofal preswyl heb fesurau diogelu priodol, neu mewn gofal amgen heb ei reoleiddio, gan gynnwys gwestai a llety gwely a brecwast.**

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg am OWR o'r llif gwaith, ynghyd â'r data sy'n dod i'r amlwg o waith AGC ar y pwnc yma, a chynhyrchu cynllun gweithredu ar frys i ymateb i'r anghenion a nodwyd yn ystod 2023/24.
- Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i asesu cynnydd y llety a gynlluniwyd sy'n cael ei ddatblygu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'i gomisiynu gan LlC, a cheisio rhoi sylw i rwystrau sy'n atal y gwaith yma rhag cael ei gwblhau.

AMDDIFFYN RHAG
ECSBLOETIO A THRAIS

# Chwilio plant a phobl ifanc yn noeth

# Mater

**Nid yw plismona wedi'i ddatganoli – mae hynny'n golygu na all Comisiynydd Plant Cymru ymyrryd yn achos materion yr heddlu. Fodd bynnag, mae'r swyddfa'n mwynhau perthynas waith adeiladol gyda heddluoedd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ar draws Cymru, gan eu bod yn rhan bwysig o fywydau plant.**

Yn dilyn cyfarfod cychwynnol gyda Grŵp y Prif Swyddogion Heddlu yng Nghymru ym mis Mehefin 2022, fe wnaethon ni ysgrifennu at Heddluoedd yng Nghymru i ddysgu mwy am y prosesau a'r mesurau diogelu sy'n cael eu rhoi ar waith petai plant yn cael eu chwilio'n noeth gan yr Heddlu.

Ym mis Rhagfyr 2022, defnyddiodd Comisiynydd Plant Lloegr ei phwerau ffurfiol i geisio gwybodaeth a data gan holl Heddluoedd Cymru a Lloegr ynghylch chwilio plant yn noeth. Cododd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023,[12] bryderon ynghylch diffyg gorolwg o'r pwerau hyn, ac amlygwyd diffyg cydymffurfio â mesurau diogelu statudol.

Amlygodd y data fod plant ag ethnigrwydd du chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eu chwilio'n noeth, o gymharu â ffigurau poblogaeth cenedlaethol.

Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion i Swyddfa Gartref Llywodraeth y Deyrnas Unedig, megis adolygu'r fframwaith polisi deddfwriaethol ar gyfer chwilio plant sydd yn y ddalfa ac o dan bwerau stopio a chwilio, ac adolygu Codau Tystiolaeth yr Heddlu a Throsedd er mwyn cryfhau'r mesurau diogelu statudol. Roedd hefyd bwyntiau dysgu ar gyfer lleoliadau addysg a byrddau diogelu rhanbarthol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio ar y cyd â swyddfa Lloegr i sicrhau bod gwasanaethau yng Nghymru yn ymwneud â symudiadau at newid. Dyna pam buon ni'n ysgrifennu at Benaethiaid yr Heddlu, Gweinidogion Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol i gynyddu ymwybyddiaeth o ganfyddiadau'r adroddiad, ac rwy'n dal mewn cysylltiad â'r cyrff hynny ynghylch yr ymateb parhaus a'r gwaith i roi sylw i bryderon.

Yng ngoleuni'r materion a godwyd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes canllawiau digonol wedi'u diweddaru ar gyfer cyrff cyhoeddus datganoledig wrth ddelio â'r posibilrwydd o chwilio plentyn neu berson ifanc. Mae canllawiau[13] i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ar ymyriadau diogel ac effeithiol pan fydd angen chwilio am arfau, ond nid yw'r rheiny wedi cael eu diweddaru ers 2013.

## Sylw Terfynol y CU:

- **Gwahardd, yn ddieithriad, chwilio plant yn noeth trwy roi mesurau ar waith mewn ysgolion a lleoliadau gofal a iechyd amgen.**

## Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r canllawiau *"Ymyriadau diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau"*, i sicrhau bod canllawiau digonol, wedi'u diweddaru, i ysgolion a chyrff llywodraethu yng Nghymru, er mwyn deall a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol pan fydd bwriad i chwilio plant yn noeth, neu pan fydd hynny wedi digwydd.

12 Children's Commissioner for England (2023) Strip search of children in England and Wales – analysis by the Children's Commissioner for England. Ar gael yn: childrenscommissioner.gov.uk/resource/strip-search-of-children-in-england-and-wales/

13 Llywodraeth Cymru (2013) Safe and effective intervention – use of reasonable force and searching for weapons. Ar gael yn: gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/safe-and-effective-intervention-use-of-reasonable-force-and-searching-for-weapons.pdf

## ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Hiliaeth mewn ysgolion



# Mater

**Codwyd hiliaeth a bwlio ar sail hunaniaeth fel thema allweddol yn ein Harolwg 'Gobeithion i Gymru'.**

**Canfyddiadau'r ymatebwyr 7-11 oed:**

- Dywedodd **30.1%** o'r plant 7-11 oed eu bod wedi profi bwlio neu wedi cael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw.
- Mae **57.2%** o'r plant 7-11 oed sy'n Ddu, yn Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig yn pryderu am fwlio.
- O'r rhai a soniodd am brofi bwlio, dywedodd **80.5%** o'r plant Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig eu bod wedi cael profiad o fwlio yn yr ysgol.

**Canfyddiadau'r ymatebwyr 12-18 oed:**

- Soniodd **30.3%** o'r bobl ifanc 12-18 oed eu bod wedi profi bwlio neu gamdriniaeth.
- O ystyried ymatebion ymatebwyr ag ethnigrwydd gwahanol, roedd cyfraddau uchel o fwlio ymhlith pobl ifanc Du, gan fod **48.6%** wedi profi bwlio.
- O'r rhai a soniodd am brofiadau o fwlio, roedd **87.3%** o'r bobl ifanc Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig wedi cael eu bwlio yn yr ysgol.

Rydyn ni wedi ceisio dyfnhau ein dealltwriaeth o brofiadau plant a phobl ifanc o hiliaeth ar hyd y flwyddyn, trwy ein prosiect ymchwil Hiliaeth mewn Ysgolion. Cychwynnwyd y gwaith hwn i roi sylw i adroddiad Estyn ar aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion, a'r gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar fwlio LHDTC+, a'r bylchau neu'r diffyg gwaith cyfatebol ynghylch hiliaeth a digwyddiadau hiliol sy'n effeithio ar blant.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP) ym mis Mehefin 2022. Yn y cynllun hwnnw, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r canllawiau gwrthfwlio, Hawliau, Parch a Chydraddoldeb er mwyn adlewyrchu profiad lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, yn ogystal â 'gofyn bod digwyddiadau hiliol ac aflonyddu mewn ysgolion a cholegau yn cael eu riportio trwy gryfhau'r casglu data, sut deliwyd â nhw, y camau a gymerwyd mewn ymateb, ac a gafodd y digwyddiad ei ddatrys yn llwyddiannus i'r dioddefwr.'

Fe wnaethon ni groesawu hyn mewn datganiad yn ymateb i'r cynllun, ond gan amlygu bod monitro cynnydd a chyflawni'r cynllun gweithredu yn bwysig. Gwaetha'r modd, ymddengys bod rhai elfennau o'r cynllun yn araf yn cael eu cyflwyno. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto pryd neu sut byddan nhw'n rhoi diweddariad ar eu cynnydd, ond mae eu traciwr cynllun gweithredu LHDTC+ yn lasbrint defnyddiol iawn.

## Sylwadau Terfynol y CU:

- **Targedu polisïau a rhaglenni i wrthweithio hiliaeth a dileu gwahaniaethu yn erbyn plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig, gan gynnwys plant sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol, plant sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid ac sy'n ymfudo, plant Roma, Sipsiwn a Theithwyr, a llawer o grwpiau eraill sydd o dan anfantais.**
- **Llwybrau clir i blant gael cyfiawnder lle bu gwahaniaethu yn eu herbyn, gan gynnwys sicrhau cynnal mynediad at addysg.**
- **Ymgyrchoedd yn y cyfryngau i dargedu ymddygiad sy'n cyfrannu at gamwahaniaethu, ac i hybu goddefgarwch a pharch at amrywiaeth.**
- **Annog riportio troseddau atgasedd yn erbyn plant; a delio â'r rheiny'n briodol.**
- **Gwerthuso mesurau presennol sy'n ceisio gwrthweithio gwahaniaethu yn erbyn plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig, a chynnwys plant yn y gwaith hwnnw.**
- **Cynyddu ymdrechion i ddileu camwahaniaethu a bwlio ar sail hil, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd neu nodweddion rhyw, anabledd, mudo neu statws arall yng nghyd-destun yr ysgol, a sicrhau bod mesurau o'r fath: (i) yn derbyn adnoddau digonol ac yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â phlant; (ii) yn rhoi sylw i achosion gwaelodol bwlio; a (iii) yn cwmpasu ataliaeth, mecanweithiau canfod cynnar, cynyddu ymwybyddiaeth o effeithiau niweidiol, grymuso plant, hyfforddiant gorfodol i athrawon, protocolau ymyrraeth a chofnodi a monitro ymddygiad bwlio yn gyson ac yn gadarn.**
- **Dileu iaith "wladychol" a chamwahaniaethol o werslyfrau a chwricwla a datblygu deunyddiau addysgol sy'n meithrin parch at amrywiaeth hil, diwylliant, rhywedd ac eraill, a gwerthfawrogiad ohonynt.**

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni eu hymrwymiad yn ARWAP i gryfhau'r canllawiau gwrthfwlio presennol i ysgolion (Hawliau, Parch, Cydraddoldeb 2019) er mwyn cydnabod anghenion penodol dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
- Dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol yn ystod 2023/24 i sefydlu 'system Cymru gyfan o adrodd a chasglu data a fydd yn casglu data yn benodol mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchodedig', fel y nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Er mwyn gwella profiadau dysgwyr Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus ac ymateb yn ffurfiol i adroddiad thematig y Comisiynydd sydd ar ddod ynghylch hiliaeth mewn ysgolion, gan gynnwys argymhellion ar gyfer hyfforddi athrawon ynghylch hiliaeth.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg



# Mater

**Mae plant o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu anghydraddoldeb addysgol difrifol, ac mae'r deilliannau a nodwyd yng nghynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn ceisio "cefnogi a gwella canlyniadau addysgol dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr" a hybu "mwy o ymwybyddiaeth mewn ysgolion o anghenion penodol dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, fel bod llai o anghydraddoldeb addysgol."**

Er mwyn cyflawni'r deilliannau hyn, mae'n hanfodol bod ysgolion yn mynd ati i gyflwyno RSE mewn modd diwylliannol sensitif. Rydyn ni'n ymwybodol bod teuluoedd o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn pryderu ynghylch gweithredu'r elfen hon o'r cwricwlwm, ac yn teimlo ei bod yn fygythiad i addysg eu plant. Rydyn ni wedi clywed am blant sy'n ofnus ynghylch beth byddan nhw'n ei ddysgu a sut mae hynny'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Rydyn ni'n ymwybodol o berthnasoedd gwaith cynhyrchiol rhwng Llywodraeth Cymru a rhai grwpiau ffydd, a byddai'n ddefnyddiol petai'r gwaith gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dilyn yr un trywydd.

## Sylwadau Terfynol y CU:

- **Polisïau a rhaglenni wedi'u targedu i wrthweithio hiliaeth a dileu gwahaniaethu yn erbyn plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig, gan gynnwys plant sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol, plant sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid ac sy'n ymfudo, plant Roma, Sipsiwn a Theithwyr, a llawer o grwpiau eraill sydd o dan anfantais.**

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm cymunedol neu rywbeth tebyg i hwyluso deialog parhaus gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau annibynnol ynghylch cyflwyno RSE, gan gynnwys astudiaethau achos i helpu ysgolion i gefnogi anghenion pob dysgwr.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol



# Mater

**Y mater a godwyd amlaf o bell ffordd gyda'n Tîm Ymchwiliadau a Chyngor yw darparu cefnogaeth ac addysg i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).**

Mae mynediad at ddarpariaeth arbenigol briodol yn fater cyson sy'n cael ei godi gyda ni, a chadarnhawyd ei fod yn broblem mewn sgyrsiau gydag Awdurdodau Lleol ar draws Cymru. Mae dysgwyr ag ADY, o gymharu â'u cyfoedion prif ffrwd, eisoes yn wynebu rhwystrau i'w dysgu. Trwy beidio â chynnig y ddarpariaeth arbenigol sy'n ofynnol, mae'r dysgwyr hyn o dan anfantais ddwbl, gan nad oes modd darparu ar gyfer pob ADY mewn ysgol brif ffrwd. O ganlyniad i ddiffyg darpariaeth, mae'r dysgwyr yn wynebu rhwystrau mwy i ddysgu a sgiliau bywyd ehangach, sy'n gallu arwain yn fuan at ddatgysylltu oddi wrth addysg yn llwyr. Materion cysylltiedig â Lleoliadau a Darpariaeth yw 70% o'r holl achosion ADY sy'n dod i'r swyddfa.

## Achos enghreifftiol 1

**MATER:** Cysylltodd rhiant oherwydd bod eu plentyn yn cael trafferth ymdopi mewn Canolfan Adnoddau Dysgu, ac roedd yr ysgol yn cytuno bod angen lleoliad mwy arbenigol.

**GWEITHREDU:** Cysylltodd CPC â'r ALl, roedd y broblem yn hysbys yn yr ystyr nad oedd digon o leoliadau ysgol arbenigol ar gael o fewn yr awdurdod.

**CANLYNIAD:** Mae cynllun pontio a chymorth 1:1 ychwanegol bellach wedi cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer y plentyn nes iddyn nhw gychwyn yn y lleoliad ym mis Medi 2023.

## Achos enghreifftiol 2

**MATER:** Nid oedd plentyn wedi bod yn derbyn addysg amser llawn ers bron blwyddyn, ac roedd y 5 awr o diwtora gartre a ddarparwyd yn ddiweddar wedi dod i ben oherwydd bod y tiwtor yn sâl. Roedd yr uned arbenigol a nodwyd ar gyfer y disgybl yn llawn ar hyn o bryd, ac nid oedd dyddiad cychwyn wedi'i roi.

Roedd y rhiant wedi cwrdd â'r Cyfarwyddwr Addysg, a nodwyd darpariaeth a lleoliad, ond nid oedd y rhieni wedi derbyn cytundeb ffurfiol na dyddiad cychwyn ar gyfer y cyfleuster addysgu arbenigol.

**GWEITHREDU:** Anfonodd CPC e-bost at y Cyfarwyddwr Addysg i egluro pa ddarpariaeth fyddai'n cael ei rhoi yn ei lle pan fyddai'r lleoliad yn cael ei gytuno, petai hynny'n digwydd.

**CANLYNIAD:** Derbyniodd CPC gadarnhad ysgrifenedig ynghylch y lleoliad a'r ddarpariaeth, a rhoddwyd yr wybodaeth honno i'r rhieni.

## Achos enghreifftiol 3

**MATER:** Cysylltodd rhiant â ni oherwydd bod eu plentyn wedi cael cynnig lleoliad arbenigol, na chafodd ei gwblhau mewn pryd iddyn nhw gychwyn ym mis Medi 2022 oherwydd problemau gyda'r fasnach adeiladu. Diflannodd cyllid cynnig gofal plant Cymru hefyd, oherwydd bod y plentyn wedi cael lleoliad, ac ni allai'r rhiant fforddio pontio'r bwlch yn ariannol nes bod y ddarpariaeth yn barod.

**GWEITHREDU:** Cysylltodd CPC â'r ALl i ofyn a allai'r ysgol dderbyn y plentyn i'r brif ffrwd gyda chefnogaeth nes bod y lleoliad yn barod, neu dalu'r feithrinfa breifat wrth hawlio amgylchiadau esgusodol i Lywodraeth Cymru er mwyn estyn y ddarpariaeth. Fe wnaethon ni'r cais i'r Uned Gofal Plant, gyda llythyr cefnogol gan yr ALl, ar gyfer cyllid Cynnig Gofal Plant Cymru.

**CANLYNIAD:** Sicrhawyd cyllid Cynnig Gofal Plant Cymru, yn gynt na'r disgwyl a than hanner tymor, felly roedd modd i'r plentyn gael mynediad at ddarpariaeth feithrin breifat heb oblygiadau ariannol niweidiol i'r teulu nes bod y lleoliad addysg arbenigol yn barod.

## Achos enghreifftiol 4

**MATER:** Cysylltodd rhiant â ni yn anfodlon ar y gefnogaeth a gynigiwyd gan ysgol cyfrwng Cymraeg, oedd yn nodi eu bod yn methu diwallu anghenion eu plentyn ac yn awgrymu uned sy'n ddarpariaeth Saesneg oherwydd nad oes darpariaeth addas trwy gyfrwng y Gymraeg.

**GWEITHREDU:** Cododd CPC y mater gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol.

**CANLYNIAD:** Bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â'r ysgol ac mae SNAP CYMRU yn cefnogi'r rhieni.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd sydd wedi dod i rym yn y maes hwn yn bodoli ochr yn ochr â diwygiadau ehangach ym myd addysg, megis y cwricwlwm newydd. O ystyried lefel y newid yn y maes hwn ers i'r canllawiau ar hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol[14] gael eu diwygio ddiwethaf, mae angen adolygu'r gofynion hyfforddiant gorfodol, er mwyn sicrhau bod llywodraethwyr yn gyffredinol yn deall materion sy'n effeithio ar ddysgwyr yn yr ysgol, a'u bod wedi'u paratoi i ddelio ag unrhyw gwynion neu apeliadau a allai godi o ganlyniad i benderfyniadau gan yr ysgol ynghylch sut i ddarparu gwersi neu gefnogaeth addysgol penodol.

Yn ystod y flwyddyn hon fe wnaethon ni gyhoeddi llyfr profiadau yn amlygu anghenion plant niwroamrywiol. Er nad yw hyn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth addysg ADY yn unig, mae'n amlygu sut mae diffyg diagnosis, gwaetha'r modd, yn llesteirio ymdrechion plant a theuluoedd i sicrhau cefnogaeth a darpariaeth ADY ar gyfer addysg y plentyn. Mae oedi wrth atgyfeirio a chydag apwyntiadau dilynol ar gyfer asesiadau yn rhwystro mynediad plant at addysg, ac mae hynny'n cael ei waethygu'n arbennig ar adeg pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i amlygu'r diffyg adnoddau a darpariaeth addas i gefnogi dysgwyr cyfrwng Cymraeg gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae problemau o ran y gweithlu a diffyg data gwaelodlin ynghylch beth gall awdurdodau lleol ei ddarparu neu beth mae ganddyn nhw fynediad ato yn faterion allweddol, fel y mae'r ddarpariaeth mewn ardaloedd sydd â llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg a/neu ddysgwyr.

Mae'r amserau aros ar gyfer asesiadau o gyflyrau niwroddatblygiadol hefyd wedi dod i'r amlwg fel mater allweddol, gyda chyfnodau aros sylweddol (hyd at 3 blynedd), y gwnaethon ni eu hamlygu trwy gyhoeddi ein Llyfr Profiadau ar y pwnc hwn eleni. Ochr yn ochr â hyn, mae dryswch wedi codi ynghylch statws achosion lle cafwyd diagnosis meddygol preifat o gyflyrau niwroddatblygiadol, rhywbeth yr ydyn ni wedi'i godi gyda'r Llywodraeth yn ystod y flwyddyn, ac y byddwn ni'n parhau i'w fonitro'n ofalus.

14 gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/guidance-on-mandatory-training-for-governors-and-clerks.pdf

## Sylwadau Terfynol y CU:

- **Cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer integreiddio cymdeithasol a datblygiad unigol plant ag anableddau, a sicrhau eu mynediad at ddyfeisiau cynorthwyo, ailsefydlu a chymorth personol;**
- **Sicrhau hawl plant ag anableddau i gael eu clywed ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw.**

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dysgu proffesiynol am ADY i athrawon, ac ystyried gwneud lleoliad mewn darpariaeth ADY arbenigol (gan gynnwys unedau STF mewn ysgolion prif ffrwd) yn rhan orfodol o hyfforddiant pob athro (ITE).
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun hirdymor yn ei le i sicrhau digonolrwydd lleoliadau darpariaeth arbenigol i ddiwallu anghenion y garfan gynyddol o ddysgwyr y nodwyd bod ganddyn nhw anghenion cymhleth.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion hyfforddi gorfodol ar gyfer llywodraethwyr ysgol a diwygio'r canllawiau, er mwyn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig, materion cysylltiedig fel gwaharddiadau a chyfyngu ar yr amserlen, a gofynion y cwricwlwm newydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen gyda'r gwaith a gynlluniwyd o ran y Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth i sicrhau dull gweithredu cyson, Cymru-gyfan o ymdrin â diagnosis meddygol preifat, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau gweithredu a fframwaith ar gyfer clinigwyr.

ADDYSG, DINASYDDIAETH
A GWEITHGAREDDAU
DIWYLLIANNOL

# Gwaharddiadau o'r Ysgol

# Mater

**Yn dilyn effaith pandemig Covid 19, mae ein swyddfa wedi clywed tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn arddangos ymddygiad mwy a mwy cymhleth, a bod ysgolion ac athrawon yn cael trafferth ymateb i hyn.**

Mae gwaharddiadau o'r ysgol, rhai parhaol a thros dro, yn un ffordd o reoli ymddygiad disgyblion, fodd bynnag, mae tystiolaeth sy'n destun pryder bod rhai grwpiau o ddysgwyr yn cael gwaharddiadau anghymesur, gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr[15]. Mae cyfradd y gwaharddiadau dair gwaith yn uwch yn achos y rhai sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae'r gyfradd yn uwch fyth yn achos plant ag anghenion dysgu ychwanegol.[16]

Roedden ni wedi galw'n flaenorol am ddiwygio'r canllawiau gwaharddiadau statudol, ac roedden ni'n falch bod y gwaith yma wedi cychwyn yn ystod 2023. Fodd bynnag, esblygodd dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â hyn yn ddull gweithredu dau gam, fel bod modd ystyried canfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd ar arfer ynghylch gwaharddiadau. Er ein bod ni'n croesawu dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth, rydyn ni'n pryderu ynghylch oedi pellach i'r diwygio pwysig hwn ar y canllawiau, ac rydyn ni'n dymuno gweld y gwaith yma'n cael ei gwblhau fel blaenoriaeth.

Yn ogystal â'r defnydd o waharddiadau ffurfiol, rydyn ni'n pryderu am y defnydd o 'waharddiadau cudd' neu answyddogol, sy'n gallu cynnwys defnyddio amserlenni cyfyngedig, rhaglenni cefnogaeth fugeiliol, symudiadau a reolir a defnyddio 'ynysu'. Mae gwaith achosion ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ninnau yn dangos bod cyfatebiaeth rhwng peidio â diwallu anghenion addysgol dysgwyr yn llawn, yn enwedig dysgwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a'r defnydd o waharddiadau, gan gynnwys gwaharddiadau 'cudd'. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n fanwl fater Gwaharddiadau Cudd a cheisio cefnogi Awdurdodau Lleol ac ysgolion trwy ddull gweithredu cefnogol yn hytrach na chosbol.

Mae ein gwaith achosion a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid addysg yn awgrymu bod angen edrych o'r newydd ar fframweithiau presennol ar gyfer rheoli presenoldeb ac ymddygiad, er mwyn rhoi cyfrif am ymddygiad mwyfwy cymhleth a heriol dysgwyr, a thirlun newidiol datgysylltiad disgyblion, wedi'r pandemig, gan gynnwys ystyried prosesau Dychwelyd i'r Ysgol, a rôl Swyddogion Lles Addysg.

## Achos enghreifftiol 1

**MATER:** Roedd person ifanc wedi cael gwaharddiad parhaol o ysgol arbenigol ar gyfer Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol (EBD) ac ar y pryd roedd allan o fyd addysg heb gefnogaeth.

**GWEITHREDU:** Cysylltodd CPC â Rheolwr Cynhwysiad yr awdurdod lleol, a'r Cyfarwyddwr Addysg ar y pryd, ynghylch y cynlluniau o ran darpariaeth addysg i'r person ifanc yma.

**CANLYNIAD:** Trefnwyd tiwtora gartref i'r person ifanc, a lleoliad mewn darpariaeth EOTAS, tra bod yr awdurdod yn parhau i geisio lleoliad amser llawn mewn darpariaeth addas.

## Achos enghreifftiol 2

**MATER:** Cysylltodd rhiant oherwydd trafferthion gyda lleoliad ysgol eu plentyn a gwaharddiadau cyfnod penodol, yn ogystal â'r ffaith bod eu CDU heb ei lunio'n derfynol.

**GWEITHREDU:** Cysylltu â'r ysgol, sy'n cadarnhau eu bod yn methu diwallu anghenion y plentyn, er gwaethaf lefel uchel o gefnogaeth a mynediad i'r UCD bedwar bore yr wythnos. Dangosodd y cyswllt cychwynnol â'r ALl eu bod o fewn y terfynau amser gyda'r CDU, oherwydd bod y plentyn wedi newid ysgol.

**CANLYNIAD:** Cychwynnwyd proses o ddatrys anghydfod gan yr ALl a SNAP Cymru, fodd bynnag, cyflwynodd y rhiant apêl hefyd i'r tribiwnlys addysg, gan eu bod yn teimlo bod materion yn cymryd rhy hir i'w datrys.

15 humanrightstracker.com/en/progress-assessment/school-exclusions-and-managing-challenging-behaviour-welsh-government-assessment-2/

16 Llywodraeth Cymru (2022) Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2020 i Awst 2021. Ar gael yn: gov.wales/permanent-and-fixed-term-exclusions-schools-september-2020-august-2021-html#107572

## Achos enghreifftiol 3

**MATER:** Galwodd rhiant oherwydd bod eu plentyn, oedd â datganiad o AAA, newydd dderbyn eu pumed gwaharddiad mewn 3 mis. Roedd y rhiant yn anfodlon ar y gefnogaeth roedd yr ysgol yn ei darparu i'r plentyn oherwydd, er bod datganiad yn ei le, mae'r plentyn yn dal i gael gwaharddiadau.

**GWEITHREDU:** Codwyd y pryder gyda'r tîm ADY yn yr awdurdod lleol.

**CANLYNIAD:** Roedd adolygiad i gael ei gynnal yn y tymor newydd, a byddai'r lleoliad yn cael ei adolygu i bennu addasrwydd.

# Sylw Terfynol y CU:

- **Bod pob plentyn yn cael mynediad at ddulliau cyfrinachol, annibynnol a hwylus i blant o wneud cwynion mewn ysgolion (a lleoliadau eraill), a chynyddu ymwybyddiaeth plant o'u hawl i wneud cwyn o dan y systemau hynny.**
- **Monitro'r defnydd o waharddiadau a sicrhau nad ydynt yn cael eu caniatáu mewn ysgolion cynradd, a'u defnyddio mewn ysgolion uwchradd dim ond pan fo popeth arall wedi methu; atal defnyddio gwaharddiadau anffurfiol a "thynnu oddi ar y gofrestr" trwy ddarparu dewisiadau amgen priodol, a datblygu mesurau i ymdrin â gorddefnydd ohonyn nhw yn gyffredinol, yn ogystal â defnydd anghymesur ohonyn nhw yn achos plant sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol a phlant ag anableddau;**
- **Sicrhau hawl plant i apelio yn erbyn gwaharddiadau a darparu cyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol iddyn nhw, lle bo hynny'n briodol, yn unol ag argymhellion blaenorol y Pwyllgor.**

# Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau eu bwriad i ddiwygio'r canllawiau statudol ar waharddiadau yn 2023/24, gan gryfhau'r canllawiau i grwpiau penodol yr effeithir yn anghymesur arnyn nhw gan waharddiadau a sancsiynau eraill, gan gynnwys plant iau, y rhai â nodweddion gwarchodedig, y rhai ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar yr adolygiad cynhwysfawr maen nhw'n bwriadu ei gynnal o'r holl ganllawiau sy'n ymwneud â phresenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau, a dylai hynny roi sylw i'r defnydd anghymesur o waharddiadau ffurfiol a 'chudd' yn achos rhai grwpiau.

# ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

## Addysgu Gartref

# Mater

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Mai 2023[17]. I gyd-fynd â'r rhain cynhyrchwyd llawlyfr i addysgwyr cartref ym mis Mehefin 2023.[18]**

Rydyn ni'n croesawu'r cyllid mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol er mwyn cynnig mwy o gefnogaeth i deuluoedd sy'n addysgu gartref.

Fodd bynnag, ni fydd y canllawiau statudol yn bodloni'r 'tri phrawf' a bennwyd yn flaenorol:

- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am bob plentyn yng Nghymru, heb fod neb ohonyn nhw anweledig.
- Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.
- Ac yn drydydd, bod pob plentyn yn cael eu gweld, a bod eu barn a'u profiadau'n cael gwrandawiad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn bodloni'r ddau brawf cyntaf.

Fel gwnaethon ni argymell mewn adroddiad blynyddol blaenorol, rhaid i werthuso gweithrediad y canllawiau statudol gynnwys data ar ba ganran o blant sy'n cael eu haddysgu gartref sy'n cael eu gweld ac yn cael trafod eu haddysg yn flynyddol. Bydd hyn yn hanfodol wrth asesu a yw'r dewis i ddiweddaru deddfwriaeth eilaidd yn unig wedi golygu bod niferoedd y plant sy'n cael eu gweld ac sy'n trafod eu haddysg yn gwella'n sylweddol.

Mae angen i deuluoedd sy'n addysgu gartref gael cyfle hefyd i glywed yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru am y canllawiau newydd a gofyn cwestiynau. Roedden ni'n falch o fedru hwyluso dwy sesiwn, y daeth dwsinau o addysgwyr gartref iddyn nhw, a chael atebion i'w cwestiynau gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru greu mwy o gyfleoedd fel hyn i ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu gartref.

## Argymhelliad

- Dylai Llywodraeth Cymru greu cyfleoedd rheolaidd yn ystod 2023/24 i barhau i ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu gartref wrth i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith.

17 Llywodraeth Cymru (2023) Elective Home Education Guidance. Ar gael yn: gov.wales/elective-home-education-guidance
18 Llywodraeth Cymru (2023) Home Education: handbook for home educators. Ar gael yn: gov.wales/home-education-handbook-home-educators

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Gwasanaethau ieuenctid

# Mater

**Amlygodd sawl gweithiwr proffesiynol a gwblhaodd ein harolwg 'Gobeithion i Gymru' yn Hydref 2022 ganlyniadau gostwng y lefelau ariannu i grwpiau a gweithgareddau cymunedol, gan gynyddu'r pwysau ar rieni i dalu, neu ar ysgolion i ddarparu gweithgareddau di-dâl ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r berthynas rhwng cyfleoedd chwarae fforddiadwy a iechyd meddwl a llesiant, yn ogystal â gostwng cyfraddau gordewdra a chyflyrau iechyd cronig:**

Pryderon gweithwyr proffesiynol ynghylch y plant maen nhw'n gweithio gyda nhw:

- **16.7%** yn nodi tlodi a chostau byw fel pryder;
- **11.8%** yn nodi diffyg cefnogaeth i rieni a gofalwyr; a
- **10.8%** yn nodi pryderon ynghylch diffyg cyllid/buddsoddiad/adnoddau/dod dan bwysau gormodol

Nododd y plant (7-11 oed) a fu'n cymryd rhan ac yn ymateb i 'beth fyddai'n gwneud bywydau plant yn well' 'pethau am ddim i'w gwneud' (23.22%) a mwy o leoedd i chwarae (23.27%)

Gofynnwyd i rieni a gofalwyr rannu eu barn ynghylch sut i wella bywydau plant a phobl ifanc. Gan amlaf (48.4%) fe wnaethon nhw nodi 'Mwy o weithgareddau am ddim a phethau i'w gwneud'.

Yn ystod y flwyddyn buon ni hefyd yn ymateb i'r ymgyngoriadau ar gategorïau cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg, ac yn cefnogi'r cynigion i estyn cofrestru i gynnwys yr holl weithwyr ieuenctid a delir a gweithwyr cefnogi ieuenctid mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys myfyrwyr. Byddai hynny'n golygu eu bod yn cyfateb i drefniadau cofrestru rheoleiddwyr proffesiynol eraill, er enghraifft meddygaeth neu waith cymdeithasol, gan gydnabod rôl bwysig y gweithwyr hyn ym mywydau pobl ifanc a natur broffesiynol y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Mae gwasanaethau ieuenctid yn sylfaenol bwysig i bobl ifanc yng Nghymru, ac maent yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd ariannol presennol. Er gwaethaf hyn, nid oes rheidrwydd ar awdurdodau lleol i wario arian penodol ar wasanaethau ieuenctid. Mae'n bryd i hynny newid.

## Argymhelliad

- Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen â'r bwriad i gynnal adolygiad o'r cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid yn ystod y tymor Senedd hwn, a chwblhau'r gwaith hwnnw, er mwyn sicrhau bod modd i wasanaethau gwaith ieuenctid fod ar sylfaen gynaliadwy, i ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol hyn yn y tymor hwy.

ADDYSG, DINASYDDIAETH
A GWEITHGAREDDAU
DIWYLLIANNOL

# Addysg mewn Lleoliadau Gofal Iechyd



# Mater

**Eleni rydyn ni wedi cynnal prosiect ar y ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal iechyd i gleifion mewnol. Roedd hwn yn fater a ddaeth at dîm Ymchwiliadau a Chyngor y swyddfa, a rhoddodd y tîm ehangach sylw i'r mater ar ffurf adroddiad sbotolau.**

Rydyn ni wedi cynnal nifer o arolygon a darnau o waith er mwyn clywed profiadau plant a theuluoedd, a barn gweithwyr proffesiynol am y ddarpariaeth bresennol, unrhyw fylchau neu rwystrau, ac unrhyw enghreifftiau o arfer da. Rydyn ni hefyd wedi ymchwilio i ddulliau gweithredu mewn gwledydd eraill.

Dylai plant ag anghenion gofal iechyd gael eu cefnogi i dderbyn darpariaeth briodol sy'n diwallu eu hanghenion addysgol. Gallai hynny fod yn yr ysbyty, gartref neu mewn lleoliad arall. Fodd bynnag, rydyn ni wedi clywed bod rhai plant heb gael cynnig addysg o gwbl, er eu bod yn ddigon iach ac yn awyddus i ddysgu. Roedd eraill yn derbyn darpariaeth gyfyngedig iawn.

Fe glywson ni pa mor bwysig yw addysg i blant mewn lleoliadau gofal iechyd, er mwyn cadw i fyny gyda gwaith ysgol a chymwysterau, ond hefyd er mwyn dysgu i fwynhau, gallu canolbwyntio ar rywbeth heblaw eu salwch, a chael gweithgaredd ac ymgysylltiad y tu allan i'r ward. Amlygodd athrawon mewn lleoliadau gofal iechyd hefyd fod dysgu ac addysgu yn creu strwythur dyddiol, yn meithrin perthnasoedd, ac yn cadw plant a phobl ifanc mewn cysylltiad â'u cymuned ysgol lle bynnag y bo modd.

Mae gan blant Cymru lai o hawl i dderbyn addysg o gymharu â phlant sydd ddim angen aros mewn lleoliad gofal iechyd, ac o gymharu â phlant yn Lloegr.

Rydyn ni'n cyhoeddi adroddiad sy'n cyflwyno'r gwaith yn llawn, a chyfres o argymhellion i roi sylw i annhegwch y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

## Argymhelliad

- Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r canllawiau EOTAS a'r fframwaith ar gyfer gweithredu, er mwyn sicrhau bod cynnig addysg amser llawn yn cael ei gynnal ar gyfer y rhai sy'n derbyn triniaeth fel cleifion mewnol, pryd bynnag mae hynny'n briodol.

# CYFRIFON 2022-23



08

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Cyflwyniad

**Sefydliad annibynnol sy'n ymdrin â hawliau dynol plant yw Comisiynydd Plant Cymru. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Mae dwy gyfraith yn nodi'r rheolau ynghylch sut gall hi wneud ei gwaith, ac yn rhoi pwerau penodol iddi, sef Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000).**

### Dyma grynodeb o bwerau'r Comisiynydd

- Y pŵer i adolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth mewn cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd;
- Y pŵer i adolygu sut mae cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd yn ymarfer eu swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau), gan gynnwys Llywodraeth Cymru;
- Y pŵer i archwilio achosion sy'n ymwneud â phlant unigol;
- Y pŵer i roi cymorth i blant unigol; a hefyd
- Y pŵer i gyflwyno sylwadau i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n destun pryder iddi ac nad oes ganddi bŵer i weithredu yn eu cylch.

### Nid oes gan y Comisiynydd bŵer i weithredu mewn nifer o amgylchiadau a ddiffiniwyd:

- Materion sydd heb eu datganoli i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys mewnfudo a lloches, budd-daliadau lles, cyfiawnder a phlismona, a phlant yn y lluoedd arfog;
- Lle gall CAFCASS (Gwasanaeth Ymgynghorol Plant a'r Llysoedd) weithredu;
- Lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau yng nghyswllt achosion teulu; a
- Rhag gwneud ymholiadau ynghylch neu adrodd ar unrhyw fater sydd neu a fu'n destun achos cyfreithiol.

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn ei swydd fel Comisiynydd ar 20fed Ebrill 2015 tan 19 Ebrill 2022. Ar 20 Ebrill 2022, daeth Rocio Cifuentes yn Gomisiynydd nesaf, ar ôl cael ei phenodi gan Brif Weinidog Cymru, am gyfnod o saith mlynedd. Cychwynnodd yr uwch swyddogion eraill ar eu penodiadau rhwng mis Mai 2006 a mis Mai 2017, ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd (presennol a blaenorol) o dan Atodlen 2 paragraff 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

### Uwch Swyddogion

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

- Yr Athro Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru, tan 19 Ebrill 2022;
- Rocio Cifuentes – Comisiynydd Plant Cymru, o 20 Ebrill 2022;
- Sara Jermin – Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad;
- Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer, tan 15 Mawrth 2023;
- Rachel Thomas – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, tan 31 Gorffennaf 2022;
- Kirrin Davidson – Pennaeth Gweithredol Polisi a Materion Cyhoeddus, o 1 Awst 2022;
- Amanda Evans – Pennaeth Adnoddau Dynol; a
- Tony Evans – Pennaeth Cyllid.

### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae manylion pellach am rôl a swyddogaeth y Pwyllgor hwn i'w gweld yn ein datganiad llywodraethu ac yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. I grynhoi, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa'r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf, ac yn cynnwys swyddogion uwch o Swyddfa'r Comisiynydd ac aelodau Anweithredol. Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yw

- Jocelyn Davies – cyn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Margaret Provis – gynt yn Was Sifil, tan fis Gorffennaf 2022;
- Arwel Thomas – gynt yn Was Sifil;
- Julie Richards – Awdur Annibynnol/Ymgynghorydd Cyfathrebu Strategol;
- Bernie Bowen-Thomson – Prif Swyddog Gweithredol Cymru fwy Diogel;

- Jo Hendy – Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth Cyngor Sir Penfro a Phennaeth archwilio mewnol ar gyfer ERW a Bargen Ddinesig Bae Abertawe;

  Michaela Leyshon – Tiwtor Proffesiynol, Prifysgol Abertawe, o fis Ebrill 2022;

  Alfred Oyekoya – Cyfarwyddwr, Cymorth Iechyd Meddwl BAME (BMHS), o fis Ebrill 2022; a

  Suzy Davies – cyn Aelod o'r Senedd, o fis Ebrill 2022.

Mae cynrychiolwyr Archwilio Cymru a chwmni TIAA Ltd hefyd yn cymryd rhan ym mhob cyfarfod.

### Ariannu

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2022-23 derbyniodd y Comisiynydd £1.640 miliwn (2021-22: £1.580 miliwn) i gyllido gweithgareddau'r Comisiynydd.

### Fformat y Cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae copi o'r cyfarwyddyd hwnnw ar gael oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru, Tŷ Llewellyn, Parc Busnes Glan yr Harbwr, Heol yr Harbwr, Port Talbot SA13 1SB.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023 ac maent yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau'r Comisiynydd Plant. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

### Canlyniadau ar gyfer y Flwyddyn

Dengys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wariant o £1.721 miliwn (2021-22 £1.524 miliwn) ar gyfer y cyfnod. Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £80,000 (2021-22: £161,000).

Yn ystod 2022-23 newidiodd staff y Comisiynydd i 22.70 aelod o staff (cyfwerth ag amser llawn) o 21.27 (cyfwerth ag amser llawn), sy'n cynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser.

### Dysgu a Datblygu

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am ein gwaith dysgu a datblygu yn ein datganiad llywodraethu. Yn gryno, mae'r Comisiynydd yn parhau i fuddsoddi mewn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r staff.

Trwy Fframwaith Datblygu Perfformiad y Comisiynydd, gofynnir i'r holl staff nodi anghenion datblygiad personol a'u cofnodi mewn Cynllun Datblygu Personol, a chânt eu cefnogi i wneud hynny. Fel sefydliad, rydym ni'n ymroddedig i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu pawb sy'n gweithio yma, a datblygu systemau a strwythurau clir i gefnogi ein ffordd o weithio. Rydym ni'n gwybod bod sefydlu **dealltwriaeth a rennir** o'r hyn sydd i'w gyflawni, a bod pawb yn deall eu rôl yn hynny, yn galluogi pobl i gyflawni ar ran y sefydliad, ac ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Fframwaith Datblygu Perfformiad yn cysylltu perfformiad a datblygiad unigolion ag amcanion strategol y sefydliad. Rydym ni'n gwybod bod pobl yn gwneud **eu cyfraniad gorau** ac yn darparu gwaith o'r safon uchaf pan fydd ganddyn nhw waith clir, ystyrlon a heriol i'w wneud. Rydym ni hefyd yn gwybod bod cynllunio ein gwaith a myfyrio ar yr hyn fu'n llwyddiannus a'r hyn allai fod yn wahanol yn y dyfodol yn galluogi unigolion i dyfu a gwella yn eu hymarfer. Yn ogystal â datblygiad personol, mae'r sefydliad yn darparu rhaglen dysgu a datblygu i'r holl weithwyr bob blwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cyflawni ei rhwymedigaethau o ran dysgu a datblygu naill ai yn unol â statud, neu lle bernir bod hynny'n hanfodol i'r holl grwpiau o staff er mwyn bodloni gofynion y cynllun gwaith blynyddol, gan gwmpasu pynciau fel Amddiffyn a Diogelu Plant, er enghraifft..

### Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Staff

Mae'r strwythurau atebolrwydd a llywodraethu a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn helpu i sicrhau bod ein gweithle yn lle diogel, cynhyrchiol a braf. Yn ogystal, mae ein diwylliant o gydweithio yn y gweithle yn cyfrannu'n sylweddol at ein llwyddiant fel Tîm llwyddiannus sy'n perfformio ar lefel uchel. Rydym ni'n credu bod ein ffocws parhaus ar ymgysylltu â'n gweithwyr, yn ogystal ag ymgynghori â'r staff, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn elfen allweddol o ddatblygu arferion rheoli pobl mwy blaengar.

Mae'r Comisiynydd a'i Thîm Rheoli yn gweithio ar y cyd â'r staff, lle bynnag y bo modd, ar newidiadau pwysig i'r sefydliad a blaenoriaethau datblygu'r sefydliad. Cyflawnir hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ein dull rheoli prosiect sefydledig o weithio, cyfarfodydd rheolaidd i'r holl staff (Fika), arolygon, gweithgorau fel y Grŵp Llesiant, ynghyd â diwrnodau datblygu i'r tîm cyfan. Yn ogystal, sefydlwyd arfer o roi cyfleoedd i'r holl staff, yn unigol ac mewn grwpiau, gyfrannu at gynllun strategol tair blynedd y Comisiynydd a'r cynlluniau gwaith blynyddol.

### Absenoldeb Staff

Yn ystod 2022-23 cyfradd absenoldeb salwch swyddfa'r Comisiynydd oedd 4.1 y cant (2021-22: 1.6 percent), wedi'i seilio ar ganran o gyfanswm y diwrnodau gwaith oedd ar gael. Mae Covid-19 wedi effeithio ar y newid o ran cyfraddau absenoldeb salwch.

## Cynaliadwyedd

Fel aelod o Banel Ymgynghorol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i'r egwyddorion a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru sydd â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus; a
- Chymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn ymroddedig i leiafu effaith ei sefydliad ar yr amgylchedd lle bynnag y bo modd, ac mae'n ceisio lleihau'r effaith honno trwy gymryd y camau canlynol:

- Deunydd ysgrifennu ac adnoddau swyddfa: anogir y staff i gyfyngu gymaint â phosib ar eu defnydd o nwyddau traul y swyddfa. Caiff cyn lleied â phosib o ddeunydd ei argraffu a'i lungopïo;
- Teithio: os yw hynny'n ymarferol, cynhelir cyfarfodydd trwy ddefnyddio fideo-gynadledda pryd bynnag y bo modd;
- Ynni: mae'r Comisiynydd yn annog pob aelod o staff i fod yn ymwybodol o ynni, ac i ystyried ffyrdd o leihau eu hôl troed carbon; a
- Gwaredu gwastraff: mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i ailgylchu pob gwastraff lle bydd hynny'n bosibl.

Yn ystod 2022-23 bu'r staff yn gweithio'n hybrid, naill ai o'r swyddfa neu o'u cartref, gan leihau'n sylweddol allyriadau carbon cymudo a mynychu cyfarfodydd, a oedd yn awr yn cael eu cynnal yn rhithwir lle bynnag yr oedd modd. Mae'r swyddfa hefyd bron yn gwbl ddi-bapur, gan fod ein systemau ariannol bellach yn gwbl electronig. Mae disgwyl i'n symudiad i swyddfa fodern ym mis Gorffennaf 2021, yn ymyl gorsaf reilffordd ar y brif lein, leihau ein hôl-troed carbon yn sylweddol, a byddwn ni'n parhau â llawer o ffyrdd newydd o weithio a ddysgwyd yn gyflym yn ystod y pandemig.

Mae Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus. Yn 2019-20 aethom ati i ddatblygu cynllun yn unol â phedair colofn ein fframwaith perfformiad (sef plant a phobl ifanc, staff y Comisiynydd, prosesau sefydliadol a sefydlogrwydd ariannol/gwerth am arian) mewn ymateb i'r ddyletswydd honno. Yn 2022-23 datblygodd y Comisiynydd ei Pholisi Cynaliadwyedd, sy'n ymgorffori'r dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae'r polisi yn cael ei wella ymhellach gan weithgor Llesiant y Comisiynydd, a bydd y fersiwn derfynol yn cael ei llunio yn 2023-24.

## Cyfle Cyfartal

Ystyrir pob cais am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi dan anfantais chwaith gan amodau neu ofynion na ellir dangos bod modd eu cyfiawnhau.

Yn ystod 2020 sefydlodd y Comisiynydd grŵp gweithredu ar gydraddoldeb, gyda ffocws arbennig ar hil, sydd eisoes yn cymryd camau i'n galluogi i sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein sefydliad.

## Archwilwyr

Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae TIAA Ltd yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer y Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r archwilwyr am waith heblaw archwilio.

## Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Mor bell ag y mae'r Comisiynydd yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni; ac mae'r Swyddfa wedi cymryd pob cam y dylasai ei gymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn cael eu hadrodd i'r Tîm Rheoli ac i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rydym ni'n cadw at yr holl ganllawiau a gyflwynir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), gan gynnwys a oes angen symud digwyddiad ymlaen atyn nhw.

Yn ystod 2022-23 nid adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau.

## Digwyddiadau ers Diwedd y Flwyddyn Ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

**O dan Atodlen 2 o'r Ddeddf Safonau Gofal, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Gomisiynydd Plant Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf yr hyn a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon ac ar y sail honno. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddarparu darlun gwir a theg o sefyllfa fusnes Comisiynydd Plant Cymru, yr incwm a'r gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian y flwyddyn ariannol.**

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn arbennig â'r canlynol:

- glynu at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifeg a datgelu, a defnyddio polisïau cyfrifeg addas yn gyson;
- dod i benderfyniadau a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifo perthnasol, fel y'u cyflwynir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM), wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw achosion pwysig yn y datganiadau ariannol lle na ddilynwyd y safonau hynny;
- cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a derbyn cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r penderfyniadau sy'n ofynnol i sicrhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn sgîl paragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Cyflwynir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu a luniwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylaswn eu cymryd i'm gwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod archwilwyr Comisiynydd Plant Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu blynyddol

**Mae'r Datganiad hwn gan Gomisiynydd Plant Cymru yn nodi ar ba sail y sefydlwyd y corff, sut mae'n cael ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.**

### Rôl Comisiynydd Plant Cymru

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma amcan gor-redol y Comisiynydd pan fydd hi'n cyflawni ei swyddogaethau.

Mae crynodeb o bwerau'r Comisiynydd i'w weld, ewch i'n gwefan.

### Deilydd blaenorol a deilydd cyfredol y swydd

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn swydd y Comisiynydd ar 20 Ebrill 2015, ar ôl cael phenodi gan Brif Weinidog Cymru am gyfnod o saith mlynedd. Daeth ei chyfnod fel Comisiynydd i ben ar 19 Ebrill 2022.

Penodwyd Rocio Cifuentes MBE gan Brif Weinidog Cymru am gyfnod o saith mlynedd yn ystod y cyfnod ariannol hwn a dechreuodd yn y swydd ar 20 Ebrill 2022.

### Strwythur Llywodraethu

Isod ceir disgrifiad o'n strwythur llywodraethu. Mae rhagor o fanylion ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael ar ein gwefan.

**Comisiynydd Plant Cymru**

• Corfforaeth Un Person • Swyddog Cyfrifyddu

**Tîm Rheoli (TRh)**

Yn cynnwys: Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, Pennaeth Ymarfer, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Adnoddau Dynol. Cadeirio gan y Comisiynydd.

Prif ddiben y TRh yw rhoi cymorth a chyngor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Y TRh sydd hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad a rheoli'r gwaith o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

Mae'r pwyllgor yma yn cynghori'r Comisiynydd ar y prosesau strategol ar gyfer risgiau, eu rheoli a'u llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a gweithgaredd arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol.

**Paneli Ymgynghorol y Comisiynydd Plant (Panel Oedolion a Phanel Plant a Phobl Ifanc)**

Prif ddiben y paneli yw i ddarparu cyngor annibynnol, cymorth, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd Plant yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae'r paneli hefyd yn gweithredu fel ffrind beirniadol a seinfwrdd i'r Comisiynydd a'i staff ynghylch polisïau a chynigion a blaenoriaethau strategol.

Paneli Ymgynghorol: paneli anstatudol yw'r rhain, a'u prif rôl yw darparu cyngor, cefnogaeth a her annibynnol i'r Comisiynydd a'i staff.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg: i ddysgu mwy am rôl, cylch gorchwyl a gwaith y Pwyllgor hwn, ewch i'n gwefan lle cewch hefyd ddarllen eu hadroddiad blynyddol.

Gan ein bod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rydym ni'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Mae'n ofynnol bod y Comisiynydd yn esbonio'r strwythur llywodraethu yn y sefydliad ac yn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Côd Llywodraethu Corfforaethol a'r 'Llyfr Oren: Rheoli Risg'.

Yn yr adran hon, manylir ar i ba raddau mae'r sefydliad yn bodloni'r safonau hyn ac yn darparu tystiolaeth bod y trefniadau llywodraethu yn gweithio'n unol â'r bwriad ar draws y sefydliad. I ddarparu sicrwydd pellach, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae ein trefniadau llywodraethu corfforaethol wedi bod yn destun archwilio mewnol gan ein hymgynghorwyr, TIAA. Mae'r farn archwilio mewnol ar 2022-23 fel a ganlyn:

**"Mae TIAA yn fodlon fod prosesau rheoli risg, mesurau rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn."**

**"Seilir y farn hon yn gyfan gwbl ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol unigol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n cwmpasu holl elfennau'r prosesau rheoli risg, mesurau rheoli a llywodraethu na hyfywedd ariannol parhaus y sefydliad na'ch gallu i gyflawni ymrwymiadau ariannol, a bydd rhaid i Gomisiynydd Plant Cymru sicrhau'r rhain trwy'r gwahanol ffynonellau sicrwydd sydd ar gael iddi."**

# Fframwaith Llywodraethu

**Penderfynwyd mabwysiadu'r 'Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus', sy'n datblygu Egwyddorion Nolan ar gyfer ymddygiad unigolion mewn bywyd cyhoeddus ac yn darparu chwe egwyddor craidd ar gyfer llywodraethu da gan sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar i ba raddau mae'r sefydliad yn cyflawni'r egwyddorion**




*Oddi mewn i'n fframwaith llywodraethu, diffinnir y Comisiynydd fel ein corff llywodraethu – sef y corff sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyfeirio a rheoli'r sefydliad. Yn swyddfa'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo rhai cyfrifoldebau i aelodau o'i thîm rheoli, ac mae hynny i gyd wedi'i amlinellu yn ein cynllun dirprwyo.

## Bod yn eglur ynghylch diben a chanlyniadau'r sefydliad

Mae bod â diben sefydliadol pendant a set o amcanion clir yn un o nodweddion llywodraethu da. Ein dull cynllunio strategol yw'r dull systemig o bennu ein nodau. Mae'n galluogi'r sefydliad i gadw at ei chylch gorchwyl deddfwriaethol a chyflawni'r genhadaeth, y weledigaeth a'r blaenoriaethau strategol a amlinellwyd yng nghynllun strategol y Comisiynydd.

Mae'r prosesau cynllunio strategol a blynyddol yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer holl swyddogaethau'r swyddfa; ac yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sefydliadol er mwyn mwyafu ein heffaith dros blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Eleni, cafodd ein cynllunio gweithredol a'n perfformiad eu hadolygu gan ein harchwilwyr mewnol, a ddarparodd asesiad sicrwydd sylweddol i'r Comisiynydd.

Mae ein strategaeth tair blynedd ddiweddaraf yn cynnwys manylion y deilliannau poblogaeth bydden ni'n hoffi eu gweld yn digwydd i bob plentyn yng Nghymru erbyn 2026, a sut byddwn ni'n cyfrannu at y deilliannau hynny.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwireddu atebolrwydd

Nid ydym yn comisiynu gwasanaethau nac yn darparu gwasanaethau rheng flaen. Yn hytrach, mae ein gwaith yn canolbwyntio ar ddarbwyllo a chefnogi eraill i gyflwyno a gweithredu newid a dal cyrff cyhoeddus yn atebol am eu dyletswyddau a'u haddewidion. Profiadau a barn plant a phobl ifanc sy'n sbarduno ein holl waith.

Ers cychwyn yn y swydd, mae'r Comisiynydd wedi treulio'r flwyddyn gyntaf yn gwrando ar blant a phobl ifanc, yn ogystal â'u teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw a throstyn nhw. Galluogodd ein hymgynghoriad ar raddfa fawr, 'Gobeithion i Gymru', ni i wrando ar 8,830 o blant a phobl ifanc, gan gynnwys trwy fformatau penodol a grewyd ar gyfer plant o dan 7 oed a'r rhai ag anabelddau dysgu dwys a lluosog. Fe glywson ni hefyd gan 507 o weithwyr proffesiynol ac 876 o rieni a gofalwyr. Bu'r holl safbwyntiau hyn o gymorth i lunio gwaith y sefydliad ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae'r Comisiynydd newydd wedi nodi cynyddu gwelededd, amrywiaeth a hygyrchedd ein sefydliad fel sbardunau allweddol, yn ogystal â sicrhau bod ffocws i'n gwaith, bod y staff yn parhau mewn cysylltiad â'n pwrpas, a'n bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth rydyn ni'n ei chasglu i lywio ein gwaith dylanwadu.

Er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn gweithredu ein dyletswyddau cydraddoldeb yn ein galluogi i gyrraedd y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a bod ein gwaith yn cael effaith ystyrlon ar eu bywydau, rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'n strategaeth cydraddoldeb, y byddwn ni'n ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023.

## Capasiti a gallu i fod yn sefydliad effeithiol

Rydym ni'n cydnabod bod llywodraethu'n cael ei gryfhau gan gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o wybodaeth a phrofiad. Rydym yn hyderus, yn sgîl ein Fframwaith Datblygu Perfformiad, fod gan bob aelod o staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau. Oddi mewn i'r fframwaith hwnnw, amlinellir cyfres o egwyddorion:

Rydym am i'n staff deimlo'n gysylltiedig ac wedi'u gwerthfawrogi; teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi; bod yn glir eu meddwl ynghylch y gwaith sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw ac wedi'u hysgogi i gyfrannu at ein cynllun strategol; bod yn atebol am eu cyfraniadau a'u heffaith; cynnal trafodaethau effeithiol gyda chydweithwyr a rheolwyr ynghylch eu perfformiad a'u huchelgeisiau personol; a datblygu a chryfhau eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu tîm.

Fel sefydliad, rydym ni'n ymroddedig i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu pawb sy'n gweithio yma, a datblygu systemau a strwythurau clir i gefnogi sut rydym ni'n datblygu. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu ein bod yn:

- trefnu rhaglen sefydlu fanwl ar gyfer pob aelod newydd o staff;
- annog pob aelod o staff yn ystod eu sesiwn oruchwylio fisol i drafod eu hanghenion a'u dymuniadau dysgu a datblygu;
- myfyrio ar gyflawniadau yn ystod ein cyfarfodydd arfarnu blynyddol gyda'r holl staff ac yn defnyddio ein dadansoddiad anghenion hyfforddi wedi'i deilwra yn sail ar gyfer ein trafodaethau ynghylch meysydd datblygu yn y dyfodol;
- cefnogi pynciau datblygu tîm cyfan, y mae rhai ohonynt yn orfodol.

Yn ogystal, rydym yn gwahodd y staff i gymryd rhan mewn arolwg staff bob dwy flynedd. Mae'r arolwg yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd gwaith yn y swyddfa gan gynnwys: llwyth gwaith ac adnoddau, rheolaeth linell, amcanion a diben y sefydliad, cynhwysiant a thriniaeth deg, arweinyddiaeth, gwybodaeth am y staff, cydweithwyr tîm, cydweithwyr yn y tîm ehangach, tâl a buddion, diogelwch ac urddas yn y gwaith, dysgu a datblygu a chyfathrebu mewnol.

81% oedd y gyfradd ymateb i'n harolwg diweddaraf a fu ar waith ym mis Rhagfyr 2021; cyfradd ymateb sy'n gyson â rhai'r blynyddoedd blaenorol. Gwelwyd gwelliant ar ganlyniadau'r arolwg blaenorol (2018) mewn pedair adran, sef arweinyddiaeth, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, cyfathrebu ac amcanion y sefydliad. Rydym ni'n ymrwymo i gynnal yr arolwg eto yn ystod cyfnod ariannol 2023/24.

Eleni fe'n gwelwyd yn parhau i bontio i ffyrdd newydd o weithio, gan wreiddio ein model gwaith hyblyg ymhellach. Mae ein model, a amlinellir mewn polisi mewnol penodedig, yn ein galluogi i fedru addasu, bod yn ymatebol a bod yn hyblyg. Mae'n golygu ein bod yn dod â phobl, arferion

gwaith, technoleg, amser a lle ynghyd i ganfod y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o weithio, ar unrhyw adeg benodol, i gyflawni ein cylch gorchwyl ar gyfer plant a phobl ifanc.

### Hybu Gwerthoedd i'r Sefydliad ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Uchel o ran Ymddygiad ac Ymarfer

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion cyflawni yn sylfaen ar gyfer ein holl bolisïau gweithredol a staff, yn ogystal â'n strategaeth tair blynedd. Fe'u rhennir gydag aelodau newydd o staff yn ystod y cyfnod sefydlu, ac fe'u cyfathrebir yn allanol ar ein gwefan ac mewn cyhoeddiadau allweddol. Nawr bod Comisiynydd newydd wedi cychwyn ar ei gwaith, a bod cynllun strategol newydd yn ei le, rydym wedi dechrau'r broses o adolygu ein gwerthoedd, a byddwn ni'n cwblhau'r gwaith hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

Rydym ni hefyd yn ymroddedig i alluogi a grymuso gweithwyr i gyrraedd nodau unigol, tîm a strategol, ac yn barnu bod y broses arfarnu flynyddol, pennu amcanion a phrosesau cynllunio datblygiad personol yn rhan hanfodol o gyflawni hynny. Yn ein harolwg staff diweddaraf (Rhagfyr 2021), roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod ni'n arddangos gwelliant parhaus yn ein gwaith yn sgîl myfyrio ac adolygu beirniadol rheolaidd.

Mae cyfres o bolisïau cyflogaeth mewnol y mae'n ofynnol i'r holl staff eu dilyn wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y sefydliad, gan gynnwys:

- Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Delio ag Ymddygiad Anfoddhaol
- Polisi Datrys Gwrthdaro o ran Cydberthnasoedd Gwaith
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Egwyddorion a Gweithdrefnau Recriwtio
- Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â Phryderon Achwyniad
- Polisi Datgelu Camarfer
- Fframwaith Datblygu Perfformiad.

Mae gan bob polisi mewnol berchennog ar lefel y Tîm Rheoli, maen nhw'n cael eu trafod gydag aelodau newydd o staff yn ystod y cyfnod sefydlu, ac maen nhw'n cael eu diweddaru'n unol â chylch rheolaidd (gyda'r amserlen yn mynd gerbron y tîm rheoli). Fel cyfres, mae'r polisïau hyn yn ein helpu i feithrin diwylliant sy'n gosod gwerth ar lefel uchel o berfformiad ac yn cryfhau a gwella sut rydym ni'n cyflawni ein rolau.

Mae ein holl bolisïau mewnol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn cylch, ac eleni buom ni'n adolygu ac yn diweddaru polisïau cyflogaeth allweddol ar ôl ymgynghori â'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cymraeg yn y Gweithle
- Arweiniad i drefniadau gwyliau
- Ein Model Gweithio Hyblyg

### Gwneud Penderfyniadau Gwybodus a Thryloyw sy'n Destun Craffu Effeithiol a Rheoli Risg

Fel corfforaeth un person, y Comisiynydd sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn y swyddfa. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo agweddau ar y penderfyniadau gweithredol i'r Tîm Rheoli. Mae rolau a chyfrifoldebau'r holl staff wedi'u diffinio'n glir yn eu disgrifiadau swydd ac yng nghynllun dirprwyo'r Fframwaith Llywodraethu. Mae gan bob gweithiwr amodau cyflogaeth a disgrifiadau swydd clir, sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Isod ceir crynodeb o sut rydym ni'n sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau cadarn a thryloyw:

- Cylch Gorchwyl y Tîm Rheoli
  Mae cylch gorchwyl y Tîm Rheoli yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi agenda a chofnodion pob cyfarfod yn fewnol, fel bod y penderfyniadau a wneir yn dryloyw.
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
  Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi agenda a chofnodion pob cyfarfod. Maent yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y sefydliad, ac mae'r cadeirydd hefyd yn paratoi datganiad blynyddol i'w gynnwys yn adroddiad blynyddol y sefydliad i Brif Weinidog Cymru.
- Polisi Cynllunio Strategol
  Mae ein dull o reoli prosiectau yn sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu diffinio a'u cyflawni. Mae'n cynnig mecanwaith effeithiol i'r sefydliad ddiffinio canlyniadau mesuradwy, ac yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer monitro perfformiad ar hyd pob cyfnod, gan gynnwys cynllunio, manylebau, cyflawni a gwerthuso wedi'r prosiect. Mae'r rhan fwyaf o aelodau staff wedi cael hyfforddiant rheoli prosiectau ffurfiol ac mae'r mwyafrif wedi cyflawni cymhwyster sylfaenol.
- Rheoli Risg
  Y polisi hwn sy'n diffinio'r fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn y sefydliad. Prif ddiben y polisi yw nodi'r broses o reoli risg fel bod yr holl staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw; sicrhau bod proses rheoli risg yn cael ei chyflwyno a'i chynnal mewn modd cyson; sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio yng ngweithgareddau'r sefydliad; a hybu diwylliant sy'n ymwybodol o risg.

## Rheoli Risg

Fel y nodwyd uchod, mae ein Polisi Rheoli Risg yn diffinio'r fframwaith ar gyfer rheoli risg yn y sefydliad. Mae'r polisi'n cydymffurfio â phrif egwyddorion Y Llyfr Oren: Rheoli Risg a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi ac yn ceisio nodi'r broses o reoli risg fel bod yr holl staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw; sicrhau bod y broses o reoli risg yn cael ei chyflwyno a'i chynnal mewn modd cyson; sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio yng ngweithgareddau'r sefydliad; a hyrwyddo diwylliant sydd ag ymwybyddiaeth o risg.

Mae ein system reoli fewnol yng nghyswllt risg yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o safbwynt cyflawni amcanion strategol y sefydliad a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Mae hynny'n cynnwys gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny ac effaith eu gwireddu ar y sefydliad ac ar blant a phobl ifanc, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiwastraff. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod pob aelod o staff yn derbyn bod risgiau'n anochel. Mae hefyd yn golygu, yn ymarferol, y dylai pob aelod o staff fod yn rhagweithiol wrth ganfod a rheoli risgiau, er mwyn sicrhau bod ein cynllun strategol tair blynedd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Rydym ni'n rheoli risg ar bedair lefel:

- Ein cofrestr risgiau gorfforaethol, sy'n nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'n hamcanion strategol
- Mae cofrestrau risg ein prosiectau a'r logiau materion, ar gyfer pob prosiect sy'n rhan o'n cynllun gwaith blynyddol, yn cael eu rheoli gan ein rheolwyr prosiectau, sy'n adrodd i'r Tîm Rheoli bob mis.
- Mae ein cofrestrau risg thematig yn eu lle ar gyfer meysydd penodol o'n gwaith craidd, e.e. seiber-ddiogelwch. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan swyddogion sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwnnw.
- Mae ein cofrestrau risg tîm yn cael eu datblygu ar gyfer timau unigol yn y sefydliad ac yn cael eu cynnal gan bennaeth y swyddogaeth honno a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod sesiynau goruchwylio gyda'r Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae ein tîm rheoli (bob mis) a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (bob chwarter) wedi parhau i ymwneud â chraffu ar ein cofrestr risgiau corfforaethol. Llwyddwyd i reoli a dileu rhai risgiau o'r gofrestr risgiau corfforaethol eleni, gyda risgiau'n cael eu cau neu eu hisgyfeirio i gofrestrau risg eraill. Yn ogystal, rydym ni wedi canfod a rheoli risgiau corfforaethol newydd yn y meysydd canlynol:

- Gallu i gyflawni swyddogaethau statudol oherwydd capasiti staff;
- Gallu i gyflawni ein swyddogaethau statudol oherwydd diffyg cyllid;
- Bygythiadau i seiber-ddiogelwch.

Fel y nodwyd, rydym ni'n pennu ac yn asesu'n barhaus natur a chwmpas y prif risgiau mae'r sefydliad yn barod i'w cymryd i gyflawni ein hamcanion. Rydym wedi adolygu ein datganiadau ynghylch eich parodrwydd i gymryd risgiau wedi i Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu newydd gael ei phenodi. Traofdwyd y datganiadau hynny gyda'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac isod ceir datganiad cyffredinol ynghylch ein parodrwydd i gymryd risgiau:

*"Ein nod yw bod yn ymwybodol o risgiau, heb fod yn rhy awyddus i osgoi risgiau, a rheoli risgiau sefydliadol yn weithredol er mwyn diogelu'r sefydliad a sicrhau ei fod yn tyfu. Er mwyn cyflawni'r nodau strategol, mae'r sefydliad yn cydnabod y bydd yn gorfod cymryd rhai risgiau a'u rheoli. Risgiau na ellir eu goddef yw rhai a allai wneud y canlynol:*

1. *Cael effaith negyddol ar ddiogelwch gweithwyr neu'r plant a'r bobl ifanc rydym ni'n gweithio drostyn nhw ac ar eu cyfer.*
2. *Niweidio gallu pobl i ymddiried yn y sefydliad a bwrw amheuaeth ar ein hygrededd.*
3. *Arwain at dorri cyfreithiau a rheoliadau.*
4. *Peryglu gweithrediadau'r sefydliad yn y dyfodol."*

- Rheolaeth ariannol
  Mae ein rheolaeth ariannol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reolaidd i reolwyr a chyfres o weithdrefnau ariannol clir, sydd wedi'u hamlinellu yng nghyfres y sefydliad o bolisïau a gweithdrefnau ariannol sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r broses o adolygu gwybodaeth i reolwyr yn cynnwys monitro ac adrodd rheolaidd ar y gyllideb. Bob mis mae'r Tîm Rheoli yn cael eu hysbysu ynghylch sut mae'r gwariant yn cyfateb i'r gyllideb, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael yr wybodaeth honno bob chwarter. Mae ein dull gweithredu seiliedig ar reoli prosiectau hefyd yn gofyn bod pob rheolwr prosiect yn datblygu cyllideb fanwl, a rhoddir adroddiad misol ar y rheiny yn y Tîm Rheoli. Cynhaliodd ein harchwilwyr mewnol, TIAA, adolygiad o'n gweithdrefnau cyflogres a theithiau a threuliau, gan ddarparu asesiadau sicrwydd sylweddol yn achos y ddau.

Rydym hefyd yn cymryd materion yn ymwneud â thwyll a chamweinyddu o ddifri calon, ac eleni fe gynhalion ni ymarferiad i greu asesiad risg penodol ar gyfer twyll, a ddaeth gerbron ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae gennym bolisïau yn eu lle ar gyfer datgelu camarfer, gwrthweithio twyll, a delio â chwynion. Yn ogystal, mae nifer o wahanol bolisïau mewnol yn disgrifio'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig

## Cyflawni'n effeithiol o ran swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir

Mae'r sefydliad yn cynnwys pum swyddogaeth ryng-gysylltiedig sy'n cydweithio mewn dull gweithredu tîm cyfan. Rydym ni'n cyflawni rhaglen waith sy'n gwbl ryngddibynnol. Mae'r swyddogion yn cyflawni rolau arbenigol yn hynny yn ôl eu harbenigedd, ond maent yn dibynnu ar y rhannau eraill o'r sefydliad wrth gyflawni'r rhaglen waith.

Mae gan yr holl bwyllgorau a phaneli ymgynghorol sy'n gysylltiedig â'r Comisiynydd Gylch Gorchwyl, a adolygir yn flynyddol, ac a gyhoeddir ar ein gwefan.

Mae'r Tîm Rheoli yn adolygu cynnydd yn erbyn ein holl brosiectau, a amlinellir yn y cynllun gwaith blynyddol, bob mis. Bob blwyddyn, trwy'r Adroddiad Blynyddol, rydym yn rhoi sylw i'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol.

Gan ein bod yn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rydym yn ymroddedig i weithredu systemau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau sy'n drylwyr ac yn dryloyw. Mae ein hadroddiad perfformiad chwarterol wedi'i lunio i roi trosolwg o ran cyflawni ein gwaith craidd, a phrosesau mewnol y sefydliad. Mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: ein pobl, ein prosesau sefydliadol, cynaliadwyedd ariannol y Comisiynydd a gwerth am arian, a phlant a phobl ifanc. Trafodir yr adroddiadau hyn bob mis yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli a phob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac mae'r uchafbwyntiau yn cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiadau blynyddol (edrychwch ar ein gwefan am uchafbwyntiau eleni).

Mae cylch gorchwyl fy mhaneli ymgynghorol yn cynnwys gofyniad penodol iddyn nhw gynnig cyngor ystyriol i'r Comisiynydd a'r staff, yn ôl y galw, er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a chyflawni ein gofynion gwaith deddfwriaethol.

### Adrodd ar ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn cael eu hadrodd i'r Tîm Rheoli ac i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rydym ni'n cadw at yr holl ganllawiau a gyflwynir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), gan gynnwys a oes angen symud digwyddiad ymlaen atyn nhw. Yn ystod 2022l23, nid oedd achosion o dorri rheolau data personol yr oedd angen i ni roi gwybod i'r ICO amdanyn nhw.

### Adolygu Effeithiolrwydd gan Gomisiynydd Plant Cymru

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system lywodraethu, ac yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus yng Nghymru, a ydwyf i'n cydymffurfio â Chôd Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet. Hysbysir yr adolygiad hwn gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr at y rheolwyr ac adroddiadau eraill. Rwyf hefyd wedi derbyn cyngor ynghylch effeithiolrwydd y system lywodraethu trwy waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau mewnol ac i ymdrin ag unrhyw wendidau wrth iddynt godi.

Roedd y broses a ddefnyddiwyd wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu fel a ganlyn:

- Bu'r Tîm Rheoli wrthi ar y cyd yn trafod ac yn adolygu gweithrediad y mesurau rheoli ariannol mewnol ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd;
- cwblhaodd archwilio mewnol adolygiad o effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol allweddol; a
- chyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn a chynghori ar oblygiadau sicrwydd a roddwyd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli, digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio.

TIAA fu'n darparu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer fy swyddfa yn ystod y cyfnod. Maent yn gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd fy system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu TIAA yn adolygu'r systemau mewnol canlynol ac yn darparu sicrwydd sylweddol ynghylch pob un ohonynt:

- System Rheoli Achosion
- Cyfathrebu
- Systemau ariannol – cyflogres a theithio a threuliau
- Llywodraethu – cynllunio gweithredol a pherfformiad

Ar sail fy adolygiad effeithiolrwydd, nid oes materion rheolaeth fewnol arwyddocaol yn codi a lle bo hynny'n berthnasol, rwy'n cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Côd Llywodraethu Corfforaethol.

### Rhaglen Welliant ar gyfer Materion Llywodraethu

Gyda'm Tîm Rheoli byddaf yn parhau i fonitro'r amgylchedd rheoli mewnol a sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae dyletswydd gyfreithiol arnaf fi i reoli'n briodol yr adnoddau a ddarparwyd ar fy nghyfer er mwyn i'm swyddfa gyflawni ei rhwymedigaethau statudol. Rhaid i mi sicrhau hefyd fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod fy swyddfa'n cael ei rheoli a'i llywodraethu'n briodol. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn wedi darparu disgrifiad manwl o'r trefniadau hyn.

### Ardystiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Rwyf wedi fy sicrhau bod y system lywodraethu a fu'n weithredol yn fy swyddfa yn ystod 2022l23 wedi bod yn un gadarn. Ar sail yr adolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol, rwyf wedi fy sicrhau bod y trefniadau presennol yn diwallu anghenion y swyddfa ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau.

**Rocio Cifuentes** MBE
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
24 Gorffennaf 2023

# ADRODDIAD TALIADAU CYDNABYDDIAETH A STAFF



# Taliadau i Aelodau Uwch o'r Tîm Rheoli

**Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r taliad i Gomisiynydd Plant Cymru, yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.**

**Yn achos aelodau eraill y Tîm Rheoli, pennwyd y taliadau cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru, ar sail cyfarwyddyd gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil.**

**Mae'r adrannau canlynol, a fu'n destun archwilio, yn darparu manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y swyddogion uchaf sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig yn swyddfa'r Comisiynydd:**

| | **Cyflog £000*** | | **Buddion mewn nwyddau** (i'r £100 agosaf)* | | **Buddion Pensiwn** (i'r £1,000 agosaf)* | | **Cyfanswm** £000* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| **Yr Athro Sally Holland** Comisiynydd Plant Cymru, tan 19 Ebrill 2022 | 5 - 10 | 90 - 95 | - | - | 2,000 | 37,000 | 7 - 12 | 127 - 132 |
| **Rocio Cifuentes** Comisiynydd Plant Cymru, o 20 Ebrill 2022 | 85 - 90 | - | - | - | 33,000 | - | 118 - 123 | - |
| **Sara Jermin** Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad | 60 - 65 | 60 - 65 | - | - | 25,000 | 24,000 | 85 - 90 | 84 - 89 |
| **Andy Wallsgrove** Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad | 60 - 65 | 60 - 65 | - | - | 25,000 | 9,000 | 75 - 80 | 69 - 74 |
| **Rachel Thomas** Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, tan 31 Gorffennaf 2022 | 50 - 55 | 55 - 60 | - | - | 8,000 | 24,000 | 58 - 63 | 79 - 84 |
| **Kirrin Davidson** Pennaeth Gweithredol Polisi a Materion Cyhoeddus, o 1 Awst 2022** | 35 - 40 | - | - | - | 14,000 | - | 49 - 54 | - |

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.

** Ymgymerodd Kirrin Davidson â rôl Pennaeth Gweithredol Polisi a Materion Cyhoeddus o 1 Awst 2022 tra bod Rachel Thomas ar absenoldeb mamolaeth.

*** Mae'r golofn Cyflogau yn cynnwys lwfansau llesiant a gweithio gartref ar gyfer Sally Holland (£16); Sara Jermin (£26); Andy Wallsgrove (£276); Rachel Thomas (£251); a Kirrin Davidson (£210).

# Datgeliad Cyflog Teg

| Taliadau Canolrif | 2022-23 | | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Band taliadau'r unigolyn sy'n derbyn y symiau uchaf (£000) | 85 - 90 | Band taliadau'r unigolyn sy'n derbyn y symiau uchaf (£000) | 90 - 95 |
| Cyfanswm y canolrif | 39,966 | Cyfanswm y canolrif | 33,697 |
| Cymhareb | 2.19:1 | Cymhareb | 2.75:1 |

| Gwybodaeth am y Gymhareb Gyflogau | 2022-23 | Cymhareb 2022-23 | 2020-21 | Cymhareb 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Cymhareb Tâl Canradd 25 | 32,710 | 2.68:1 | 20,754 | 4.46:1 |
| Cymhareb Tâl Canradd y Canolrif | 39,966 | 2.19:1 | 33,697 | 2.75:1 |
| Cymhareb Tâl Canradd 75 | 41,239 | 2.12:1 | 38,160 | 2.42:1 |

Mae'n ofynnol fy mod yn datgelu'r berthynas rhwng y taliad a wnaed i'r unigolyn a dderbyniodd y cyflog uchaf a chanolrif taliadau'r gweithwyr. Band taliadau'r unigolyn a dderbyniodd y taliad uchaf yn 2022-23 oedd £85,000 - £90,000 (2021-22: £90,000 - £95,000). Rwyf wedi defnyddio pwynt canol yr ystod hon, sef £87,500, i gymharu'r symiau hyn, a chael cymhareb o 2.19 gwaith (2021-22: 2.75) taliad canolrif y gweithwyr. Y rheswm am y symudiad rhwng y cyfnodau yw'r ffaith bod staff wedi cyrraedd y pwynt uchaf eu bandiau cyflog; a chymhwyso cynnydd costau byw ar gyfer pob gradd yn ystod y cyfnod. Mae cyfanswm y taliadau yn cynnwys y cyflog a'r buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr i bensiwn na gwerth trosglwyddo ariannol cyfatebol pensiynau.

### Iawndal a dalwyd, Dyfarniadau Sylweddol i Uwch Reolwyr Blaenorol

Yn ystod y cyfnod 2022-23 ni wnaed taliadau iawndal na dyfarniadau sylweddol i uwch-reolwyr blaenorol.

| Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil | Pensiwn a Gronnwyd £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiynau* £000 | CETV(i) ar 31.03.23* £000 | CETV(i) ar 31.03.22* £000 | Cynydd/ (gostyngiad) gwirioneddol yn CETV(il)* £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Athro Sally Holland**<br>Comisiynydd Plant Cymru, tan 19 Ebrill 2022 | 15 – 20 | 0 – 2.5 | 211 | 197 | 1 |
| **Rocio Cifuentes**<br>Comisiynydd Plant Cymru, o 20 Ebrill 2022 | 0 – 5 | 0 – 2.5 | 22 | - | 15 |
| **Sara Jermin**<br>Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad | 5 – 10 | 0 – 2.5 | 50 | 34 | 9 |
| **Andy Wallsgrove**<br>Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad | 50 – 55 | 0 – 2.5 | 864 | 766 | 17 |
| **Rachel Thomas**<br>Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, tan 31 Gorffennaf 2022 | 0 – 5 | 0 – 2.5 | 16 | 11 | 3 |
| **Kirrin Davidson**<br>Pennaeth Gweithredol Polisi a Materion Cyhoeddus, o 1 Awst 2022** | 0 – 5 | 0 – 2.5 | 16 | 10 | 5 |

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.

** Ymgymerodd Kirrin Davidson â rôl Pennaeth Gweithredol Polisi a Materion Cyhoeddus o 1 Awst 2022 tra bod Rachel Thomas ar absenoldeb mamolaeth.

**Y Cynllun Pensiwn**

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfartalog, gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yw hynny'n uwch). Wedi'r dyddiad hwnnw, mae'r holl weision sifil newydd a benodir a'r mwyafrif o'r rhai sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i PCSPS: mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) lle mae'r oedran pensiwn arferol yn 60; ac mae un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) lle mae'r oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir am gost y buddion ag arian sy'n destun pleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau o PCSPS oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol 10 mlynedd ar 1 Ebrill 2012 yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Trosglwyddodd y rhai a fyddai'n cyrraedd eu hoedran pensiwn arferol rywbryd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis wedi 1 Ebrill 2012 i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a amlygwyd yn y llysoedd o ran y modd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, disgwylir y gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol, maes o law, mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hynny effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddion pob aelod sy'n trosglwyddo i alpha yn cael eu 'bancio', a bydd darpariaeth i'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS gael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer y swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n berthnasol. Os bydd gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac yn alpha, gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun yw'r ffigur a ddyfynnir). Caiff aelodau sy'n ymuno wedi Hydref 2002 ddewis, fel sy'n briodol, rhwng y trefniadau buddion diffiniedig neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (a brynir ag arian) gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio o 4.6% i 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae'r buddion classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy adeg ymddeol. Yn achos y premium, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cyfuniad o'r ddau yw classic plus yn y bôn, gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn achos y classic a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos y premium. Yn nuvos mae aelod yn crynhoi pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif yr aelod ar gyfer y pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ond 2.32% yw'r gyfradd gronni. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn galwedigaethol cyfraniad diffiniedig yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth, sy'n rhan o Mastertrust Legal & General. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle bo'n dewis gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn eu gwaith ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronnol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. Oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau classic, premium a classic plus a 65 yn achos aelodau nuvos a 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag fydd yr uchaf, yn achos aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer y swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n berthnasol. Os bydd gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac yn alpha, gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun yw'r ffigur a ddyfynnir, ond sylwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w cael ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesiad actiwari o'r buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn rhoi sylw i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion yn sgîl Treth Lwfans Oes y gall fod angen ei thalu pan dynnir buddion pensiwn

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgîl chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig

| **a) Dyma'r costau staff ar gyfer y flwyddyn:** | **2022-23 £000** | | | **2021-22 £000** |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Tâl a Chyflogau | 1,003 | - | 1,003 | 906 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 92 | - | 92 | 88 |
| Costau Pensiwn | 263 | - | 263 | 228 |
| **Is-gyfanswm** | **1,358** | - | **1,358** | **1,222** |
| Costau ar gyfer secondiadau i mewn | - | - | - | - |
| Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan | (15) | - | (15) | - |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,343** | - | **1,343** | **1,222** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu i lawer o gyflogwyr, ond ni all y sefydliadau cyfranogol nodi eu cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cafodd y cynllun ei brisio ddiwethaf gan actiwari ar 31 Mawrth 2007, ond ers y dyddiad hwnnw, ataliwyd prisiadau actiwaraidd o'r Cynllun gan ddisgwyl gweithrediad argymhellion Adolygiad Hutton. Fodd bynnag, ailbrisiwyd y cynllun yn 2018-19 a chyhoeddwyd cyfraniadau pensiwn diwygiedig i gyflogwyr gan Drysorlys Ei Mawrhydi o 1af Ebrill 2019. Ceir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Budd-dal Ymddeol Sifil - www.civilservice-pensions.gov.uk.

Ar gyfer 2022-23, roedd cyfraniadau cyflogwr o £246,258 yn daladwy i PCSPS (2021-22: £217,594) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 16.7 y cant i 24.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu am gost y buddion a dalwyd i bensiynwyr cyfredol yn ystod y cyfnod hwn.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Roedd cyfraniadau cyflogwr o £10,364 yn daladwy i un darparwr pensiwn rhanddeiliaid (2021-22: £10,523). Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oed, ac yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy (2021-22: 3 i 12.5 y cant). Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud tâl sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr, hyd at 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Ar ben hynny, roedd cyfraniadau cyflogwr o £670 neu 0.8 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS i dalu am gost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgîl marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac ymddeoliad gweithwyr oherwydd afiechyd (2021-22: £511 neu 0.8 y cant). Nid oedd symiau'n ddyledus i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth ar 31 Mawrth 2022, (2021 22: £0). Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys yn y costau Pensiwn.

| **b) Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch-reolwyr) yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:** | **2022-23 £000** | | | **2021-22 £000** |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Cyflogeion Uniongyrchol | 22.70 | - | 22.70 | 21.27 |
| **Cyfanswm** | **22.70** | - | **22.70** | **21.27** |

### Paratoi Adroddiadau ar Gynlluniau Iawndal y Gwasanaeth Sifil ac Eraill - Pecynnau Ymadael:

Yn ystod y cyfnod 2022-23 ni wnaed taliadau iawndal na phecynnau ymadael i gyn-weithwyr.

**Rocio Cifuentes** MBE
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
24 Gorffennaf 2023

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 o dan baragraff 9 (2) o atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifo rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig, fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi.

Yn fy marn i, ym mhob ystyr bwysig, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd Plant Cymru ar 31 Mawrth 2023 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifo rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd yn Llawlyfr Adroddiadau Blynyddol Trysorlys Ei Fawrhydi; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyflwynwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

### Barn ynghylch rheoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr bwysig, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Y sail ar gyfer y farn hon

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen ar gyfer fy marn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail cyfrifo busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd pwysig ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg pryd yr awdurdodwyd rhyddhau'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifo busnes gweithredol i Gomisiynydd Plant Cymru gan ystyried y gofynion a gyflwynir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys Ei Fawrhydi, sy'n gofyn bod endidau'n mabwysiadu sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw'r datganiadau ariannol a'r rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio, a'm hadroddiad innau arnynt fel archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw am i'r graddau fel arall a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad na sicrwydd yn ei chylch. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol neu â gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos

yn gamddatganiad ffeithiol. Os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol pwysig neu anghysondebau, mae gofyn fy mod yn ystyried a yw hynny'n achosi camddatganiad pwysig yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os deuaf i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnais, fod camddatganiad pwysig yn yr wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol fy mod yn adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau pwysig yn yr wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, na'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, lle byddaf yn adrodd i chi os bydd y canlynol yn wir, yn fy marn i:

- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- os na chadwyd cofnodion cyfrifo priodol, neu na dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na fy fu nhîm yn ymweld â nhw;
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- os na ddatgelwyd yr wybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill;
- os na wnaed rhai datgeliadau ynghylch cydnabyddiaeth a bennwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys Ei Fawrhydi, neu os nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am  y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifo digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol, yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol perthnasol, a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- mesurau rheoli mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddatganiadau pwysig, p'un ai twyll neu wall sy'n gyfrifol am hynny;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu yn ôl y galw faterion sy'n ymwneud â gweithrediad y busnes, a defnyddio'r sylfaen busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd am y datganiadau ariannol, yn unol â pharagraff 9 (2) o atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Fy amcanion yw caffael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu crynswth yn rhydd rhag camddatganiadau pwysig, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad pwysig pan fydd yn codi. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a bernir eu bod yn bwysig os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Elfennau afreolaidd, gan gynnwys twyll, yw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau pwysig yng nghyswllt elfennau afreolaidd, gan gynnwys twyll.

**Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:**

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid oedd yn cael ei archwilio a'r rhai hynny oedd yn gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol ynghylch polisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Plant Cymru oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll, ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir, neu honedig; a'r
- mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau cysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais fod potensial o safbwynt twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod gwariant a phostio dyddlyfrau anghyffredin;
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Plant Cymru, yn ogystal â'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill mae Comisiynydd Plant Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, neu effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Plant Cymru.

**Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:**

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'u profi yn erbyn y dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth roi sylw i risg twyll petai rheolwyr yn trechu'r mesurau rheoli, profi priodoldeb yr hyn a nodwyd mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth greu amcangyfrifon cyfrifo yn arwydd o fias posibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anghyffredin neu y tu allan i'r cylch gwaith arferol.

Bûm hefyd yn trafod y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau twyll posibl gyda holl aelodau'r tîm archwilio, ac yn parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ar hyd yr archwiliad.

Effeithir ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan anhawster cynhenid canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Comisiynydd Plant Cymru, a natur, amseriad a chwmpas y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol fy mod yn casglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn trafod gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ymhlith pethau eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion pwysig yn y mesurau rheoli mewnol y deuaf ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Gorffennaf 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn Comisiynydd Plant Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant**<br>Costau gweinyddu: | | | |
| Costau Staff | 2.3 | 1,343 | 1,222 |
| Dibrisiad | 2.2 | 46 | 25 |
| Costau Gweinyddu Eraill | 2.1 | 332 | 277 |
| | | 1,721 | 1,524 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | - | - | - |
| Incwm Arall | - | - | - |
| | | - | - |
| Gwariant Net | | 1,721 | 1,524 |
| Llog taladwy/derbyniadwy | - | - | - |
| Gwariant Net ar ôl llog | - | 1,721 | 1,524 |

## Gwariant Arall Cynhwysfawr

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| Enillion/(colled) net o ran ailbrisio Peiriannau a Chyfarpar | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023** | | 1,721 | 1,524 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | Nodyn | | | | |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 4.1 | 33 | | 42 | |
| Asedau Hawl i Ddefnyddio | 4.2 | 85 | 118 | - | 42 |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | 43 | | 48 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | 91 | 134 | 135 | 183 |
| Cyfanswm asedau | | - | 252 | - | 225 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill taladwy | 7 | (115) | (115) | (64) | (64) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 137 | | 161 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Prydles hirdymor Hawl i Ddefnyddio | 7 | (57) | (57) | - | - |
| Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau | | | 80 | | 161 |
| **Ecwiti'r Trethdalwr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | 80 | | 161 |

**Rocio Cifuentes** MBE
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
24 Gorffennaf 2023

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

## Datganiad o Lifoedd Arian ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2023<br>£000 | 2022<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant Net | 2 | 1,721 | 1,524 |
| Addasu ar gyfer trafodion heblaw rhai ag arian parod | 2 | (46) | (25) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | (5) | 16 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn elfennau masnach taladwy | 7 | (51) | (12) |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 7 | 57 | - |
| Gwyrdroi darpariaeth heb ei defnyddio | | - | 68 |
| Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu | | - | 54 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | | 1,676 | 1,625 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 4 | 8 | 53 |
| All-lif arian net o weithgaredd buddsoddi | | 8 | 53 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cyllido Net gan Lywodraeth Cymru | | (1,640) | (1,580) |
| Darpariaeth heb eu defnyddio | | - | (54) |
| Cyllido Net | | (1,640) | (1,634) |
| Cynnydd/(gostyngiad) net o ran arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | (44) | (44) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | | 135 | 179 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod | | 91 | 135 |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol<br>£000 |
|---|---|---|
| Gweddill ar 31 Mawrth 2022 | | 161 |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2022-23** | | |
| Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 1,640 |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 2 | (1,721) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2023 | | 80 |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

# NODIADAU I'R CYFRIFON



## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

**Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.**

**Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiynydd, at ddiben rhoi golwg wir a theg. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau y barnwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon.**

Rydym wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyflwyno ond nad ydynt mewn grym hyd yma, ac sydd heb gael eu mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Prydlesi IFRS16 y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adroddiadau Ariannol (IFRS), mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol gan fod Comisiynydd Plant Cymru yn barnu nad oes pwys i effaith ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

### 1.2 Ariannu

Yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yw Llywodraeth Cymru trwy grant blynyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cydnabyddir y grant yn y cyfnod pryd y darperir y gwasanaethau.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae'r Comisiynydd wedi prisio'r holl asedau anghyfredol yn ôl eu cost hanesyddol, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn bwysig. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafiad asedau unigol yw £1,000.

Grwpiwyd niferoedd mawr o'r un math o asedau gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy

### 1.4 Dibrisiad

Darperir dibrisiad ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu gwerth asedau anghyfredol mewn rhandaliadau cyfartal dros y cyfnod a amcangyfrifir ar gyfer eu hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Offer TGCh** | **3 blynedd** |
| **Celfi** | **5 mlynedd** |
| **Cyfarpar Swyddfa** | **5 mlynedd** |
| **Gosodiadau a Ffitiadau** | **5 mlynedd** |

Codir am ddibrisiad blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.

### 1.5 Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredu y Comisiynydd. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar sail cost lawn. Dosbarthir yr holl wariant fel gwariant gweinyddu.

### 1.6 Treth ar Werth

Nid yw'r Comisiynydd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau sefydlog gyda TAW wedi'i gynnwys, gan na ellir adennill TAW.

### 1.7 Pensiynau

Mae staff y Comisiynydd wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod pryd y bydd yn cael mantais o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r PCSPS. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb ar y PCSPS. Yng nghyswllt elfennau cyfraniad diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu talu.

### 1.8 Prydlesi

Lle nodir yr Hawl i Ddefnyddio mewn prydles ac yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol (IFRS) IFRS16 (Prydlesi), cofnodir yr ased fel ased sefydlog Hawl i Ddefnyddio, a chofnodir dyled i'r sawl a roddodd y brydles ar ffurf y taliadau prydles gofynnol. Codir y taliadau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chodir tâl cyllid ar sail y gyfradd llog sy'n ddealledig yn y brydles neu gan ddefnyddio'r gyfradd llog berthnasol o Drysorlys Ei Fawrhydi.

### 1.9 Adroddiadau Segmentol

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau lle'r adroddir am y canlyniadau gweithredu.

### 1.10 Treuliau Staff

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.

### 1.11 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gontractiol y mae eu hamseru neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen ar gyfer y rhwymedigaeth.

### 1.12 Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb iddo

Mae'r Comisiynydd yn cadw arian parod, sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif banc masnachol wrth ei dderbyn. Hefyd cedwir arian mân yn swyddfa'r Comisiynydd.

## 2. Costau Gweinyddu Eraill

### 2.1 Costau gweinyddu:

| | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| Safleoedd | 37 | 57 |
| Swyddfa | 66 | 67 |
| Hyfforddiant a llesiant | 20 | 11 |
| Teithio a chynhaliaeth | 5 | 4 |
| Taliadau i archwilio allanol | 18 | 18 |
| Taliadau i'r Archwilydd Mewnol | 13 | 13 |
| Cyfathrebu | 37 | 28 |
| Offer TGCh | 27 | 23 |
| Cyfreithiol | 16 | - |
| Arall | 93 | 56 |
| | 332 | 277 |

### 2.2 Trafodion heb fod mewn arian parod

| | | |
|---|---|---|
| Tâl dibrisiad o fewn y flwyddyn | 46 | 25 |
| | 46 | 25 |

### 2.3 Costau staff:*

| | | |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 1,003 | 906 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 92 | 88 |
| Pensiwn | 263 | 228 |
| Adenillion net ar gyfer secondiadau | (15) | (-) |
| | 1,343 | 1,222 |
| | 1,721 | 1,524 |

*Mae rhagor o wybodaeth ynghylch costau staff i'w gweld yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth.

## 3. Gwybodaeth Segmentol

**Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Barn y Comisiynydd, felly, yw mai mewn un segment yn unig y mae ei swyddfa'n gweithredu, fel yr adroddwyd.**

## 4.1 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Offer TGCh £000 | Gosodiadau a Ffitiadau £000 | Celfi a Chyfarpar Swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 56 | 11 | 35 | 102 |
| Ychwanegiadau | 8 | - | - | 8 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 64 | 11 | 35 | 110 |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 42 | 2 | 16 | 60 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 11 | 2 | 4 | 17 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 53 | 4 | 20 | 77 |
| **Llyfrwerth Net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 14 | 9 | 19 | 42 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 11 | 7 | 15 | 33 |
| **Cyllido Asedau** | | | | |
| A berchnogir Llyfrwerth Net Ar 31 Mawrth 2022 | 14 | 9 | 19 | 42 |
| A berchnogir Llyfrwerth Net Ar 31 Mawrth 2023 | 11 | 7 | 15 | 33 |

## 4.2 Asedau Hawl i Ddefnyddio

| | Prydles Adeilad £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 114 | 114 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 114 | 114 |
| **Dibrisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | - |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 29 | 29 |
| Gwarediadau | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 29 | 29 |
| **Llyfrwerth Net** | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 114 | 114 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 85 | 85 |
| **Cyllido Asedau** | | |
| Ar brydles Llyfrwerth net Ar 31 Mawrth 2022 | 114 | 114 |
| Ar brydles Llyfrwerth net Ar 31 Mawrth 2023 | 85 | 85 |

Yn nodyn 4.2 uchod dangosir sut cymhwyswyd y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IRFS) IFRS16 (Rhoi Cyfrif am Brydlesi) i weithgareddau'r Comisiynydd. Cychwynnodd y Comisiynydd ar brydles pum mlynedd yn ei hadeilad presennol, Tŷ Llewellyn, Port Talbot, ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r cyfrifiad Hawl i Ddefnyddio (RoU), o dan IFRS16, yn darparu ffigur o £28,500 y flwyddyn; ac nid yw'r brydles yn cynnwys elfen o log a gyfrifir yn flynyddol. O ganlyniad, mae'r Comisiynydd wedi defnyddio cyfradd llog tymor byr Trysorlys EF i gyfrifo'r elfen o log sy'n gysylltiedig â'r Hawl i Ddefnyddio. Ym marn y Comisiynydd, nid yw'r swm a gyfrifwyd yn arwyddocaol, ac nid yw wedi cael ei ddatgelu ar wahân yn ei datganiadau ariannol.

## 5. Elfennau Masnach ac Eraill Derbyniadwy

| Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn: | 2022-23<br>£000 | 2021-22<br>£000 |
|---|---|---|
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | - | - |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 43 | 48 |
| | 43 | 48 |

## 6. Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb iddo

| | 2022-23<br>£000 | 2021-22<br>£000 |
|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill | 135 | 179 |
| Newid net yn y gweddillion arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | (44) | (44) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2023 | 91 | 135 |

Roedd yr holl weddillion ar 31 Mawrth 2023 ar ffurf daliadau gyda banc masnachol ac arian mewn llaw

## 7. Elfennau Masnach ac Eraill Taladwy

| Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn: | 2022-23<br>£000 | 2021-22<br>£000 |
|---|---|---|
| Trethi a nawdd cymdeithasol | - | - |
| Elfennau masnach taladwy | 53 | 12 |
| Croniadau ac Incwm Gohiriedig | 62 | 52 |
| | 115 | 64 |

| Symiau fydd yn ddyledus wedi un flwyddyn: | 2022-23<br>£000 | 2021-22<br>£000 |
|---|---|---|
| Prydles hirdymor Hawl i Ddefnyddio | 57 | - |
| | 57 | - |

## 8. Prydlesi Hawl i Ddefnyddio

| Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol | **2022-23** £000 | **2021-22** £000 |
|---|---|---|
| | Adeiladau | Adeiladau |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | 29 | - |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | 57 | - |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - |
| | 86 | - |

Daeth prydles y Comisiynydd ar ei swyddfa yn Nhŷ Ystumllwynarth yn Abertawe ar 31 Gorffennaf 2021. Yn ystod cyfnod ariannol 2020-21 gwnaeth y Comisiynydd a'i thîm waith manwl i benderfynu ar y lefel fwyaf priodol o lety sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod amcanion ei chynllun strategol yn cael eu cyflawni a bod costau gweithredu'r sefydliad yn cael eu lleihau. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymgynghori â'r staff a rhanddeiliaid eraill â diddordeb yn ogystal. Yn 2021 llofnodwyd prydles newydd am gyfnod o bum mlynedd ar gyfer safle newydd yn Nhŷ Llewellyn, Port Talbot, ac mae cost gwasanaeth rheoli yn gynwysedig yn rhwymedigaethau'r brydles.

### 9. Offerynnau ariannol

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn gofyn bod rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod yn cael ei datgelu o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol gweithgareddau'r Comisiynydd, a'r dull o gyllido'i gweithrediadau, nid yw ei swyddfa'n cael ei gadael yn agored i'r lefel o risg ariannol mae endidau busnes yn ei hwynebu. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddu'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt. Mae gan y Comisiynydd bwerau cyfyngedig iawn i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill a chynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan ei gweithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'u dal i newid y risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

**Risg Hylifedd**

Ariannir gofynion y Comisiynydd o ran refeniw net ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Nid yw ei swyddfa felly yn cael ei gadael yn agored i risgiau hylifedd sylweddol..

**Risg cyfradd Llog**

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau cyfradd llog.

**Risg Arian Tramor**

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau arian tramor.

**Gwerthoedd Teg**

Nid oes gwahaniaeth rhwng llyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2023.

### 10. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2023.

### 11. Rhwymedigaethau Amodol

Nid oedd dim rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2023.

### 12. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, a derbyniodd y Comisiynydd ei hunig ffynhonnell gyllido oddi wrth Lywodraeth Cymru; derbyniodd £1.640 miliwn yn ystod y cyfnod (2021-22 - £1.603 miliwn). Cafodd y Comisiynydd nifer bach o drafodion pwysig yn ystod y cyfnod gyda Chyllid y Wlad (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol), sef £320,785 (2021-22 £291,946); a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil), sef £299,656 (2021-22 £218,105).

Ni chafwyd trafodion o bwys gyda sefydliadau lle roedd gan staff uwch, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, swyddi dylanwadol.

### 13. Digwyddiadau wedi'r Cyfnod Adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad datganiad y sefyllfa ariannol a dyddiad llofnodi'r cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w rhyddhau ar 24 Gorffennaf 2023.

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales